

CYNGERDD COFFA UNDEG

Cynhaliwyd noson arbennig iawn yng ngwesty Nantyllyn, Llandysilio ar nos Wener, Hydref 7fed sef cyngerdd i goffau Undeg Lewis, Bro Beca, Efailwen. Roedd y lle dan ei sang a gellir fod wedi ei lenwi dair gwaith drosodd, cymaint oedd y galw am docynnau.

Yr artistiaid oedd Dafydd Iwan a'r band, Angharad James, Sioned Llewelyn a Clive Edwards a cafwyd adloniant gwych gan bawb ohonynt. Clive hefyd fu'n arwain y noson a gwnaeth hynny gyda'i ffraethineb a'i hiwmor arferol gan adrodd nifer o storïe cofiadwy!

Cynhaliwyd raffl ar y noson a codwyd swm o £1400, diolch i bawb wnaeth gefnogi. Yn ystod yr egwyl bu'r arwerthwr Geraint James yn gwerthu'r holl eitemau gyfranwyd tuag at yr ocsiwn a codwyd y swm anhygoel o £7200!

Bydd elw'r noson, tua £11,000, yn mynd tuag at Ymatebydd Cyntaf Crymych a Cronfa Ifan Phillips. Roedd Ifan a'i deulu yn bresennol ac roedd wrth ei fodd cael ymuno i gyd ganu un o'i hoff ganeuon gyda Dafydd Iwan, roedd y wên fawr ar ei wyneb pan yn canu, yn adrodd cyfrolau!

Cafwyd gair o werthfawrogiad gan Rhodri, ar ran y teulu ac ategwyd hynny gan Tudur, ei dad. Dymuna Tudur, Rhodri, Gwyndaf a Nia ddiolch o galon i'r canlynol :-

I'r holl artistiaid am ddarparu'r adloniant o'r safon uchaf:

Gwesty Nantyllyn am y croeso:

Boomerang, Crymych am baratoi'r posteri a'r tocynnau: Bwydydd Castell Howell, Siop Glandy Cross, Meical Roberts, Caffi Beca, Siop Y Frenni, Wyn a Meirwen Evans, JK Lewis, Awen Teifi, Rhian a Linda Davies,

parhad ar dudalen 4



Dafydd Iwan a'r Band



Ifan Phillips, Clive Edwards a Dafydd Iwan



Angharad James a Sioned Llewelyn yn gwenu'n braf ar ôl eu perfformiad gwych yn y gyngerdd.

DALIER SYLW

Rhifyn nesaf fydd rhifyn y Nadolig. Nid oes rhifyn i gael yn mis Tachwedd. Rhaid cael y newyddion, lluniau a chyfarchion Nadolig personol (gyda thâl o £5) a Hysbysebion Busnes erbyn **DYDD Gwener, Tachwedd 18ed (fan pellaf).**

Y CARDI BACH

Golygydd,
Cadeirydd a Eurfyl Lewis
Dosbarthwr 01994 419495

Is-gadeirydd: Iola Wyn
 07870 100831

Ysgrifennydd: Beti Wyn James
 01994 230966

Trysorydd,
Ffotograffydd,
Dosbarthwr
drwy'r post a Roy Llewellyn
Hysbysebion: 01994 448283

Trysorydd y Rhian White
Clwb '200': 01994 231338

Cysodwyr: Wyn a Meirwen
 Evans
 01994 448447

Cystadleuaeth John Arfon Jones
 01994 240536

Cornel y Albie Abbott
Dysgwyr:: 01239 831641

Tudalen y Plant: Llinos Mair Thomas

Llewyrch i'm Llwybr: Eurfyl Lewis

Cornel Coginio: Winnie James
 01239 831754

Cornel Llên: Nansi Evans
 01994 448392

Cornel Garddio: John Davies
 01994 240059

Newyddion, Llundain, Erthyglau
 a Hysbysebion i'w hanfon erbyn
10fed o bob mis, drwy e-bost os
 yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin,
 Cwmfelin Mynach, Hendygywyn-ar-
 Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol
 o angenrheidrwydd yn
 cytuno ag unrhyw farn a
 gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan: Gwasg Aeron Cyf.
 Aberaeron. 01545 571115

CYMRAG



Ariennir yn
 rhannol gan
 Lywodraeth
 Cymru'.

Colofn y Mis

gan Iola Wyn, San Cler

Gwyneth Hunkin

Fis diwethaf, yn 84 oed, bu farw Gwyneth Hunkin, y ddynes gyntaf i gael ei charcharu dros yr iaith Gymraeg. Roedd Gwyneth hefyd yn rhan o brotest gyntaf Cymdeithas Yr Iaith Gymraeg ar Bont Trefechan yn 1963.

Cafodd ei charcharu yn 1966 am wrthod talu treth ei char, am fod y ffurflenni ar gael yn Saesneg yn unig. Mewn gwrandawriad llys uniaith Saesneg ym Mhontypridd, cafodd ei dedfrydu i garchar.

Yn ôl ei merch Angharad Welsby, noson dreuliodd hi o dan glo mewn carchar i fenywod ym Mryste, wedi i nain Angharad a'i modryb dalu'r ddirwy a oedd yn ddyledus. Ac yna fe gafodd Gwyneth Hunkin ei rhyddhau o garchar.

Treuliodd ran helaeth o'i bywyd a diwedd ei hoes yn Bow Street, ger Aberystwyth, yn y pentref lle'm magwyd innau hefyd.

56 mlynedd ers i Gwyneth Hunkin dreulio noson mewn cell, gallwn ymfalchïo yn y ffaith fod hawliau siaradwyr Cymraeg dipyn cryfach na'r 60au, ond mae gwaith eto i'w gyflawni a dyw gwasanaethau Cymraeg yn dal ddim ar blât.

Mae yna adegau pan rydym yn dal i orfod gofyn am ffurflen Gymraeg am eu bod nhw o'r golwg, y tu ôl i'r cownter neu yn y warws yn y cefn. A phan yn gofyn am ffurflen Gymraeg, yr ateb cyson ydy nad oes neb yn arfer gofyn amdany nhw.

Pa ryfedd – dychmygwch fynd i McDonalds a phori drwy'r fwydlen, a phenderfynu ei bod hi'n werth gofyn am fara brith, er nad yw ar y fwydlen, rhag ofn bod yna un yn llechu yn y cefn !

Ac yn yr oes ar-lein hon, mae'r fersiwn Gymraeg wedi ei hanghofio'n llwyr. Ac esgusodion yn aml nad yw'n bosibl darparu yn y Gymraeg, oherwydd cymhlethdodau meddalwedd neu broblemau technegol.

Rwy'n cofio un o'r meibion yn gorfod aros a dechrau ei arholiad llawer hwyrach na'r ymgeiswyr eraill ar gyfer ei brawf gyrru ysgrifenedig, a hynny am nad oedd y staff wedi sylweddoli ei fod wedi gofyn am sefyll y prawf yn Gymraeg. Roedd hynny'n gwbwl glir ar y ffurflen gais, ond unwaith eto, yr un hen agwedd nad oes neb yn arfer gofyn am y fath beth. Meddylwch - rhywun yn gofyn i gael sefyll arholiad yn ei famiaith, yn y Gymraeg ... yng Nghymru.

Hawdd yw ildio yng nghanol prysurdeb bywyd, ac yn enwedig wrth ystyried ffurflenni, pan fo pwysau i'w llenwi ar gyfer dyddiad penodol. Ond er mwyn i'r Gymraeg fod yn gwbwl gydradd â'r Saesneg, mae'n bwysig dal ein tir a gwneud safiad.

Teg dweud bod gofyn a gofyn am ffurflen Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd yn waith syrffedus, rhwystredig a blinedig. Rwy'n dweud hynny ar ôl treulio bron i flwyddyn yn gofyn am ffurflenni Cymraeg gan swyddfa yn Birmingham sydd â chyfrifoldeb am faterion yng Nghymru. Ond felly ma' hi.

Oherwydd, mae menywod a dynion wedi brwydro i sicrhau fod hynny'n bosibl, a Gwyneth Hunkin ymysg y cyntaf i ddal ei thir. Mae'n rhyfeddol o drist nad yw'r frwydr ar ben yn 2022.

Ond rydw i am gloi ar nodyn cadarnhaol. Cofier, drwy gysylltu â gwasanaethau Cymraeg dros y ffôn, mae'r aros yn llawer byrrach cyn iddyn nhw ateb yr alwad, ac mae'r gwasanaeth yn fwy personol, ac felly'n fwy effeithiol. Diolch byth amdany nhw, er mwyn sicrhau fod elfen o ryddhad yng nghanol y rhwystredigaethau.

GOHEBWYR LLEOL

<u>ALMA:</u>	Margaret Evans 01994 230761
<u>BANCYFELIN:</u>	Merle Jones 01267 211300 eleanormerle@icloud.com
<u>CAPEL BANCYFELIN a CANA</u>	Parch, Beti-Wyn James beti.wyn@icloud.com
<u>BLAENWAUN:</u>	Tegwen James 01994 448223
<u>CAPEL MORIAH</u> (Blaenwaun)	Meinir Eynon 01437 563540 meinireynon@gmail.com
<u>CEFNYPANT:</u>	Valerie Davies 01994 448475 vdavies55@outlook.com
<u>CLUNDERWEN:</u>	Lynys Davies 01437 563319 mam_dadbox@yahoo.co.uk
<u>CWMBACH:</u>	Jane Evans 01994 448790 teulujames@btinternet.com
<u>CWMFELIN</u>	Nansi Evans
<u>MYNACH:</u>	01994 448392
<u>EFAILWEN:</u>	Angharad Booth Taylor 01994 419221 angharad.boothtaylor@btinternet.com
<u>GELLIWEN:</u>	Peter Crowdie 01994 230033 peter.crowdie@btinternet.com
<u>HENDY-GWYN:</u>	Heather Jenkins 01994 240138 jenkinsh2809@gmail.com
(Newyddion Tabernacl)	Parch. Guto Llywelyn 01269 851655 gutollywelyn@hotmail.com
<u>HENLLAN -</u> <u>FALLTEG:</u>	Sian Jackson 01994 240981 jacksonfawr@btinternet.com
<u>LOGIN a CWM MILES</u>	Meinir Eynon 01437 563540 meinireynon@gmail.com
<u>LLANBOIDY:</u>	Norah Heseltine 01994 448241 sales@shwldimwl.com
<u>LLANDYSILIO:</u>	Delyth Roblin 07882 639867 delythroblin@outlook.com
<u>LLANGLYDWEN:</u>	Jill Lewis 01994 419495 jill.llest@gmail.com
<u>LLANGYNIN:</u>	Susan Phillips 01994 231066 siwperiw@goolemail.com
<u>MEIDRIM:</u>	Patsy Lewis 01994 230369 talarwen@hotmail.com
<u>PENYBONT:</u>	Linda Davies 01994 484657 lindadavies02061955@icloud.com
<u>PWLLTRAP:</u>	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
<u>RHYDYCEISIAID:</u>	Doreen Adams 01994 240581
<u>RHYDWILYM:</u>	Eilir Davies 01994 419649 eilirrhos@btinternet.com
<u>SAN CLER:</u>	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
<u>TRELECH:</u>	Alyson Harries 01994 484359 alysonharries@btconnect.com

LLEWYRCH I'M LLWYBR

Agor y drws



“Dewch mewn! Ma'r drws ar agor!”

‘Slawer dydd, dyna fyddai'r cyfarchiad byddech yn ei glywed wrth i chi alw gyda rhywun. Byddai'r drws yn aml yn llythrennol **ar agor**- ond os nad hynny, ni fyddai **byth** ar glo. Felly oedd hi gyda drws ein ffermdy ni, a'r unig dro byddai'n cael ei gloi byddai y peth diwethaf cyn “clwydo.”

Mor wahanol yw pethau heddiw. Faint ohonoch chi sy'n medru gadael y drws ar agor y dyddiau yma, yn sgîl y newidiadau a ddaeth i'n cymdeithas? Y

gymdeithas a arferai bod yn glos a phawb yn adnabod ei gilydd.

Ceir sawl math o ddrws wrth gwrs. A pwrpas drws yw diogelu rhywbeth, cau rhywbeth i fewn yn saff. Ond mae sawl ystyr arall i ddrws hefyd.

Does dim *rhaid* i'r drws fod yn un go iawn - gall fod yn ffordd o ddweud rhywbeth. Medrwech gau drws ar bennod o'ch bywyd - dyna ddiwedd ar hynny, a mae modd wedyn i agor drws newydd, neu bennod newydd ar gyfer y dyfodol.

Mae yna ddywediad onid oes, wrth i un ddrws *gau*, mae un arall yn *agor* ac mae hynny'n wir ac yn fodd i edrych tuag at y dyfodol yn bositif. Rwy'n cofio dyna beth ddywedais wrth i Ysgol Llanfihangel-ar-arth gau ei drysau. Ni fu'n ysgol o gwbl ar ol hynny, ond mi newidiwyd yr adeilad i fod yn adnodd holl bwysig i'r gymuned. Mewn pentref lle nad oedd neuadd na festri na dim lle i gyfarfod o gwbl, trawsnewidiwyd yr adeilad a'i foderneiddio ac fe wnaed y defnydd rhyfeddaf ohono gan dynnu'r gymuned at ei gilydd, ac ni welwyd ei thranc, fel y tybiwyd. Enghraifft dda iawn o **un** drws yn cau ac **un arall** yn agor i fywyd newydd a phwrpas arall.

Gall drws agor i adael pobl fewn ac hefyd agor i adael pobl allan. Gadewch i ni ystyried ddrws y capel. Mae'n agor ar ddydd Sul gan amlaf ac yna yn cau ar ddiwedd yr oedfa. Gwelir yr aelodau ffyddlon yn dod drwy'r drysau a byddant yn mynd allan drwy'r drws rhagddynt, tan y yr oedfa nesaf. Mae drws wrth gwrs yn fodd i adael pobl i fynd allan yn ogystal a dod i mewn. Ond pa mor barod ydyn ni fel eglwysi i adael ein hadeiladau cyffyrddus a mynd allan i'r gymuned er mwyn helpu yn lleol?

Mae'r ddau beth yn digwydd gyda Bethlehem Newydd, Pwll-trap, fel rhan o brosiect Tŷ Croeso. Y weledigaeth yw croesawu'r gymuned i fewn i le croesawgar i gael paned a chlonec a hynny yn ystod yr wythnos. Gobeithir bydd y gymuned leol yn gwneud defnydd o'r adeilad ar ôl iddo gael ei addasu. Ond rydym eisioes wedi mentro allan a gwneud cysylltiadau gwerthfawr yn y gymuned er mwyn bod o gymorth yn lleol. Dangos ein ffydd ar waith yn ymarferol.

Teimlwn nad yw credu yn ddigon - mae'n rhaid gweithredu hefyd. Un enghraifft o hyn yw cludo bwyd sydd ar ôl o'r Co-op i Loches y Menywod a Phlant yng Nghaerfyrddin ddwy waith yr wythnos, yn enw Tŷ Croeso ac yn enw ein Harglwydd. Ceir help gan groesdoriad o wirfoddolwyr ar draws y gymuned. Credu a gweithredu.

Ond beth am y “drws” arall - sef drws ein calonnau ni ac mae yna UN sy'n curo yno yn feunyddiol. Gadewch i ni felly fod yn barod i **agor y drws** ac ymateb i alwad Iesu. “Dw i'n sefyll wrth y drws ac yn curo.”



parhad ar dudalen 4

Parhad o dudalen 3

Rhowch gyfle iddo i “agor drws” ein meddyliau; agor drws ein llygaid ac yn fwy fyth - agor drws ein calonau er mwyn i ni weithredu ac ymateb i'r rhai mewn angen sydd yn “sefyll wrth y drws ac yn curo.”

Annalyn Davies

Swyddog Cymunedol Tŷ Croeso

parhad o dudalen 1

Euros a Bethan Griffiths a Kevin James am gyfrannu gwobrau i'r raffl.

Angharad James, Gareth Davies, Lolfa, Bwydydd Castell Howell, Dafydd Phillips – SooGood Organic, Jackie James, Becws Bets, Cefin Vaughan, Kevin Phillips, Bythynnod a Tai Twt Cwmcoedog, Awen Teifi a'r Gymdeithas Bêldroed Cymru am gyfrannu eitemau i'r ocsiwn: Geraint James am werthu pob eitem ar yr ocsiwn am brisiau anhygoel – ac i bawb wnaeth brynu'r holl eitemau.

I'r gynulleidfa am gefnogi'r noson ac hefyd am gefnogaeth pawb dros y ddwy flynedd a hanner diwethaf.

Roedd pawb yn gytun ein bod wedi profi noson hollol wefreiddiol, yr uchafbwynt i mi ac i nifer fawr arall, oedd clywed Sioned Llewelyn yn canu'r gan “Caeau Aur”. Canwyd recordiad o'r gân yma yn angladd Undeg, ond dyma'r tro cyntaf i Sioned ac Angharad ei pherfformio yn fyw o flaen cynulleidfa. Roedd tawelwch y gynulleidfa yn fyddarol a gellir fod wedi clywed pin yn cwmpo ar y llawr – ond derbyniodd y ddwy werthfawrogiad gynnes y gynulleidfa ar y diwedd.

Braint oedd cael bod yn bresennol i gofio am Undeg, (ar noson ei phenblwydd) i ddiolch am ei bywyd ac am ei chyfraniad anhygoel i'w chymuned. Mae papur bro Y Cardi Bach, Capel Calfaria Login, Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda a Cyngor Cymuned Crymch yn gweld ei heisiau yn fawr iawn, ond mae'r golled fwyaf yn naturiol, ymhlith ei theulu a'i ffrindiau. Coffa da a melys amdani.

Eurfyl

NEWYDDION DA O LAWENYDD MAWR

Sefydlu Gweinidog ac Offeiriad ym mro'r Cardi Bach



Y Parchedig Gareth Ioan

Ar brynhawn Sadwrn hydrefol braf ar 10fed Medi 2022 sefydlwyd Y Parch. Gareth Ioan yn weinidog i Iesu Grist yn Eglwys Annibynnol Bryn Iwan, Blaen-y-coed, Nanternis a Moriah, Blaen-waun.

Dechreuodd Gareth Ioan wasanaethu cynulleidfa Bryn Iwan, sy'n gorwedd ar ucheldir gogledd-orllewin Sir

Gaerfyrddin, bron i dair blynedd yn

ôl yn Nhachwedd 2019. Roedd ar y pryd yn cwblhau ei astudiaethau gyda Choleg yr Annibynwyr.

Yn Ionawr 2020 estynnodd ei ofal dros Eglwys Annibynnol Moriah, Blaen-waun, hefyd; eglwys a fu'n hanesyddol yn rhannu gweinidog gyda Bryn Iwan. Mae Gareth a'r teulu yn aelodau yn Eglwys Annibynnol Nanternis, ger Ceinewydd, ac yn ystod ei gwrs coleg fe estynnwyd gwahoddiad iddo weinidogaethu yn eu plith hwy yn ogystal. Ar ddechrau 2020 derbyniodd alwad gan Eglwys Annibynnol Blaen-y-coed, eglwys gyffiniol ei dalgylch â Bryn Iwan, i fod yn weinidog arnynt hwythau hefyd a dechreuodd ar y gwaith ym mis Mawrth 2020.

Yn anffodus, fel y gwyddom, rhyw bythefnos wedi'r te croeso ym Mlaen-y-coed fe ddaeth yn argyfwng cyhoeddus wrth i bandemig COVID-19 ledu drwy'r wlad. Bu'n rhaid anghofio am unrhyw gyrddau ordeinio a sefydlu am y tro a throi meddwl at batrymau newydd o weinidogaethu.

Llwyddwyd i gynnal oedfa ordeinio gyfyngedig ei phresenoldeb yn Nanternis yn Nhachwedd 2020, dan arweiniad Parch Aled D. Jones o Goleg yr Annibynwyr, pan ddaeth hoe fer o'r cyfyngiadau. Fodd bynnag, roedd yr awydd i gynnal gwasanaeth sefydlu undebol rhwng y pedair cynulleidfa yn parhau'n obaith byw. Gyda'r cyfyngiadau bellach wedi eu codi, daeth cyfle i wneud hynny a daeth tyrfa deilwng iawn ynghyd i nodi'r achlysur ym Mryn Iwan.

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau

Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concridd
Paneli ac Estyll Concridd

Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygywn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED

Plymio a Gwresogi

07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD
a'i Gwmni

SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen

Ffôn: 01437 563217

Llywyddwyd yr oedfa yn urddasol a hwyliog gan Y Parch. Tom Defis, sydd â chysylltiadau agos â Bryn Iwan a Blaen-y-coed fel ei gilydd. Offrymwyd gweddi gan Gwendoline Evans, Ysgrifennydd Eglwys Nanternis, sydd wedi cydweithio â Gareth yng nghylch Ceinewydd ers rhai blynnyddoedd. Cyflwynwyd yr emynau gan Esther Defis (Blaen-y-coed), Elliw Griffiths (Bryn Iwan) a Rosemarie Davies (Moriah). Darllenwyd o'r ysgrythur gan Meirion Thomas (Bryn Iwan) a Cai Phillips (Blaen-y-coed). Cafwyd eitem gerddorol swynol iawn gan blant Ysgolion Sul Bryn Iwan a Blaen-y-coed.

Rhannwyd geiriau o groeso ac anogaeth gan ysgrifenyddion yr eglwysi – Rhiannon Mathias (Bryn Iwan), Gwendoline Evans (Nanternis), Elsbeth Page (Blaen-y-coed) a Meinir Eynon (Moriah). Cafwyd cyfarchion yn ogystal gan Elonwy Phillips (Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin), Parch Carys Ann (Cyfundeb Ceredigion), Parch Aled D. Jones (Coleg yr Annibynwyr) a Parch Beti-Wyn James (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg).

Traddodwyd y bregeth siars gan Y Parch. Guto Prys ap Gwynfor, gan seilio ei neges ar Marc 1: 14-15. Heriodd Guto Gareth a'r gynulleidfa i sylweddoli eu cyfle, eu cyfrifoldeb a'u braint o gael cyhoeddi a gweithredu Efengyl Duw yn y dydd a'r dwthwn hwn. Bu dosbarthiadau Guto yn Llandysul yn ysbrydoliaeth fawr i Gareth. Roedd y bregeth, fel y dosbarthiadau, yn fwrlwm byw o ysgolheictod, gweledigaeth a her. Roedd yn fraint i'w gwranddo.

Yn dilyn yr oedfa cafwyd cyfle i ymuno yn y gymdeithas a'r gwmniâeth o amgylch y byrddau yn y festri. Mae ein diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at y lluniaeth a'r gweini. Cafwyd hefyd gyfle i werthfawrogi'r gwelliannau a wnaed i'r festri yn ddiweddar a phrofwyd bendithion y dechnoleg newydd a gyflwynwyd i'r capel (gyda chymorth y Gronfa Arloesi a Datblygu) yn ystod y gwasanaeth. Bydd ffilm o'r achlysur yn ymddangos ar *YouTube* a dalenni *Facebook* yr eglwysi maes o law.

Bore trannoeth cynhaliwyd cymun yn Nanternis, gyda chynrychiolwyr o eglwysi lleol yn ymuno â'r gynulleidfa leol. Yn y prynhawn cafwyd cymun undebol ym Mlaen-y-coed. Braf oedd cael eitem gerddorol yno gan ieuenctid Blaen-y-coed a Bryn Iwan. Cwblhawyd y dathliadau drwy barhau'r gwledda yn y festri drachefn!



Oedfa Gymun undebol ym Mlaen-y-coed

Carai Gareth Ioan ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr oedfaon, gan gynnwys yr organyddion. Mae'n hynod o ddiolchgar i aelodau'r pedair eglwys am bob arwydd o groeso, cefnogaeth, anogaeth a chyfeillgarwch a dderbyniwyd ganddo dros y blynnyddoedd diweddar. Edrycha ymlaen yn awr at barhau'r dystiolaeth ac ymateb i'r siars a osodwyd iddo drwy ras Duw.

Eglwys Sant Gwinio, Llanwinio



Y Parchedig Carol Court (ail o'r chwith yn y rhes flaen)

Cafwyd noswaith gofiadwy a theimladwy yn Eglwys Sant Gwinio, Llanwinio ar nos Fawrth 4ydd o Hydref, pan dderbyniodd y Parch. Carol Court drwydded gan Esgob Tyddewi i wasanaethu fel Offeiriad â Gofal dros blwyfi Llanwinio, Llanfyrnach, Llanglydwen, Clydau a Mynachlog-ddu.

Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parch. Kingsley Taylor, Deon yr AWL, gyda'r Archddiacon y Hybarch Paul Mackness yn cyflwyno'r Drwydded iddi ar ran yr Esgob Joanna, a thraddodi'r Bregeth. Yn ogystal â chynrychiolwyr o'r pum eglwys, daeth dros ddeg offeiriad o siroedd Caerfyrddin, Penfro a Cheredigion i dystio i'r achlysur arbennig hwn.

Rydym yn hynod o ffodus i groesawu Carol fel ein Ficer newydd. Mae hi'n Gymraes Gymraeg o San Clêr sy'n adnabod yr ardal, ac edrychwn ymlaen at ei harweinyddiaeth a'i chwmniâeth yn ystod y blynnyddoedd a ddaw.

Diolch i bawb a fu'n helpu i lanhau a pharatoi'r lluniaeth, ac i Mrs Marianne Phillips am ganu'r organ. Diolchiadau arbennig i Gymdeithas y Gymuned am ddefnydd y Neuadd.

CYSTADLEUAETH *gan John Arfon*

Hoffwn ddechrau trwy roddi ein cydymdeimlad dwysaf i deuluoedd dwy annwyl iawn o'r Hendygwyn a fu farw yn ddiweddar sef Joyce Morsehead a Morfydd Price. Roeddynt o hyd yn gyfeillgar, yn annwyl iawn ac yn barod i helpu pawb. Bydd bwlch a cholled mawr ar eu hôl. Hefyd, hoffwn ddymuno'n dda a gwelliant buan i George Bancroft sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Amwythig wedi cael llawdriniaeth ar ei goes wedi'r anffawd a gafodd yn ddiweddar, Gobeithio y bydd yn ôl yn yr ardal cyn hir.

Dyma atebion cystadlaethau mis Gorffennaf.

A(1): 1. Ior, 2. Deor, 3. Tymor, 4. Doctor, 5. Pwyllgor, 6. Carcharor, 7. Diegwyddor, 8. Rhagflaenor, 9. Llanddowror, 10. Anhepgor, 11. Chwefror, 12. Tramor, 13. Gogor, 14. Agor, 15. Môr.

A(2): 1. Pwllheli, 2. Dolgellau, 3. Efailwen, 4. Abergwaun, 5. Pontypridd, 6. Wrecsam, 7. Llanberis, 8. Penarlaga, 9. Talacharn

Wrth ddarllen i lawr y blychau llwyd dylech fod wedi cael yr ateb sef **Eglwysbach** ac yna rwy'n gobeithio yr aethoch i ymweld â **Gerddi Bodnant**.

A

	1		2			3		4
	C		G	W	Y	M	O	N
5								
T	A	R	W			A		A
	S		6	N	LI	I		I
			E					
7						8	9	
E	G	I	N			N	O	D
	L		U		10		Ff	
					H			
11		12			13			
M	U	D			Y	F	E	D
A		14	M	Y	N		R	
		E						
		W			15		Y	N
		O			D			
16								
S	W	I	G	O	D		N	

A(3)

B

	1		2			3		4
	E		LI	E	W	Y	G	U
5								
T	I	L	A			N		R
	L		6	E	LI	Y		Dd
			F					
7							8	9
B	R	A	U			S	U	O
	A		R		10		N	
					O			
11		12			13			
A	Dd	A			G	W	I	N
R		14	I	O	L		A	
		F						
					15			
O		A			A	D	W	Y
16								
S	U	L	I	A	U		N	

B. Dyma atebion y Chwirlrifau

(a) Y Chwirlrif Mawr

10	2	9	12	4	11	5	8	1	7	3	6
7	3	5	4	10	12	1	6	9	8	11	2
6	11	1	8	9	3	7	2	10	12	4	5
1	9	6	2	5	8	11	4	12	3	10	7
5	7	8	3	1	10	6	12	4	11	2	9
12	4	11	10	7	2	3	9	5	1	6	8
3	5	4	6	12	1	9	10	8	2	7	11
8	1	10	7	6	5	2	11	3	4	9	12
9	12	2	11	8	7	4	3	6	10	5	1
11	8	7	5	3	6	10	1	2	9	12	4
4	6	3	1	2	9	12	7	11	5	8	10
2	10	12	9	11	4	8	5	7	6	1	3

(b) Y Chwirlrif X

4	3	5	6	2	1	8	9	7		7	1	9	8	2	3	6	4	5
6	2	1	9	8	7	5	4	3		3	2	5	4	6	7	1	8	9
9	8	7	5	4	3	6	2	1		4	6	8	1	9	5	7	3	2
1	9	8	4	6	5	7	3	2		8	9	4	6	7	2	5	1	3
7	5	3	2	1	9	4	6	8		6	5	1	3	8	4	2	9	7
2	4	6	7	3	8	9	1	5		2	3	7	5	1	9	8	6	4
5	7	4	1	9	2	3	8	6	4	9	5	1	7	2	9	4	8	3
8	6	2	3	5	4	1	7	9	2	3	8	5	4	6	2	3	1	9
3	1	9	8	7	6	2	5	4	1	6	7	9	8	3	7	5	6	4
						8	3	5	9	7	2	4	6	1				
						6	4	2	5	8	1	7	3	9				
						7	9	1	3	4	6	8	2	5				
2	5	6	7	9	3	4	1	8	6	2	9	3	5	7	8	9	4	2
8	3	9	4	1	2	5	6	7	8	1	3	2	9	4	7	6	1	8
4	7	1	8	6	5	9	2	3	7	5	4	6	1	8	5	2	3	7
6	4	7	5	8	9	2	3	1				4	8	6	9	5	7	3
1	9	2	3	4	6	8	7	5				1	3	9	2	4	8	6
3	8	5	1	2	7	6	9	4				5	7	2	1	3	6	9
9	1	4	6	3	8	7	5	2				8	6	3	4	1	9	5
7	2	3	9	5	4	1	8	6				7	4	5	6	8	2	1
5	6	8	2	7	1	3	4	9				9	2	1	3	7	5	4

O'r ychydig a ddaeth i law, y cyntaf allan o'r het yn rhan A ac yn ennill y wobr gyntaf o £5 oedd Olwen Gibbon, Heol Llysonnen gyda'r ail wobr o lyfr yn mynd i Gwlithyn Jones, Dryslwyn. Yn yr ail ran B, sef y Chwylrifau, y cyntaf oedd Peter Crowdie, San Cler, gyda Mair Davies, Pwlltrap yn ennill yr ail wobr. Bydd llyfrau ar eu ffordd iddynt hwy yn y dyfodol agos. Llongyfarchiadau iddynt ac hefyd i'r canlynol am eu hatebion cywir: Jane Evans, Tegwen James, Blaenwaun; Nesta Rees, Phyllis Hughes a Rita James, Pwlltrap; John Lewis, Meidrim; Dorothy Williams, Efailwen ac Eilyr Thomas, Llandysilio.

Dyma atebion y cwsorw a'r Chwair Mis Gorffennaf

X	X	O	X	O	O
X	O	X	O	O	X
O	O	X	O	X	X
O	X	O	X	X	O
X	X	O	X	O	O
O	O	X	O	X	X

7	8	3	2	1	6	5	9	4
2	1	4	9	5	8	3	7	6
6	9	5	7	4	3	2	8	1
9	2	7	6	8	1	4	3	5
1	3	6	5	7	4	9	2	8
5	4	8	3	2	9	1	6	7
4	5	2	8	3	7	6	1	9
3	7	9	1	6	5	8	4	2
8	6	1	4	9	2	7	5	3

Dyma ddau arall i'ch diddori

			O		O
	O				
O					
				X	X
	X				
		O	O		


		5				8	3	
		2	1			9		
		3		8	9	4		
		8		6	3			
	6		2	4	1			
7								
4						6		3
	5		3		4			9
9					8			1

Unwaith eto mae tri rhan i gystadleuaeth y mis hwn. Bydd rhaid ateb y cyfan yn gywir os am siawns i ennill y wobr o £5 i'r cyntaf a llyfr i'r ail a ddaw allan o'r het.

A. Y rhan gyntaf yw datrys rhifau'r pyramid

Mae swm y rhifau yn y blychau cyfochrog yn rhoi y rhif sydd yn y blwch uwchben.

Pa rif sydd i fod yn blwch A?




B. Yr ail ran yw adeiladu'r wal frics


Wedi ichwi ddatrys y cliwiau, rhwch eich atebion yn y llyfdd priodol yn y grid. Bydd pob gair yn anagram o'i gymydog, gyda naill a'i un llythyren yn ychwanegol neu'n llai pob tro.

Cymerir ch, dd, ff, ng ac yn y blaen fel un llythyren. Dyma'r cliwiau:-

- | | |
|---------------------------------|------------------------------|
| 1. Digalon neu brudd. | 5. Ennaint yr archoffeiriad. |
| 2. Defnyddiwn hwn i ysgrifennu. | 6. Rhes neu linell. |
| 3. Haenen o groen. | 7. Lloches neu ddirgelfa. |
| 4. Hiliogaeth. | 8. Clewten neu ergyd ysgafn. |
| 9. Cario clecs. | |

**C. Y trydydd rhan yw cwblhau yn gywir Celloedd Mêl y Gwenyn**

Mae'r atebion i'r cliwiau i gyd yn chwe llythyren o hyd ac mae'n rhaid eu rhoi yn dilyn dwylo'r cloc (clocwedd) o gylch y rhifau yn y celloedd mêl. Defnyddir rhai llythrennau mewn mwy nag un ateb. Gall yr atebion ddechrau yn unrhyw le o gwmpas y rhif. Er mwyn rhoi ychydig o help ichwi mae dwy lythyren wedi cael eu rhoi i mewn yn barod.



- | | |
|------------------------|-----------------------------|
| 1. Buan | 5. Adar ifainc |
| 2. Paradwys | 6. Serch |
| 3. Heb fod yn gaeedig | 7. Symud rhwystrau |
| 4. Man aros i fodurwyr | 8. Un yn treiddio trwy ddŵr |
| 9. Hedfan yn yr unfan | |

Anfonwch eich atebion i John Arfon Jones, Cilhaul, Heol y Gogledd, Hen Dŷ Gwyn-ar-Daf, SA34 0AX, erbyn Ionawr 1af 2023, ynghyd a'ch enw, cyfeiriad llawn a'ch rhif ffôn os gwelwch yn dda. Peidiwch a gadael anfon eich cynigion i mewn tan y funud olaf. Cofiwch fod yn rhaid ichwi fod yn aelod o'r Clwb 200 os am y siawns o ennill gwobr.

Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel.
Mae'r misoedd yn gwibio heibio a nwyddau'r Nadolig yn
ein siopau ers wythnosau bellach.
Diolch i'r isod am ymaelodi oddi ar y rhifyn diwethaf:-

Iolo a Dion Phillips, Bwlchglas, Hermon.
Ina a Nel Phillips, Bwlchglas, Hermon.
Heulwen a Niamh Davies, Berkeley, San Francisco.

Ianto Davies, Hi Winds, Cold Blow, Arberth.
Gerwyn Jones, Bryn Pedyll, Cynwyl Elfed.
Parch. a Mrs Guto Llywelyn, Isycoed, Heol
Penygroes, Caebryn, Rhydaman.

Dyma enillwyr lwcus mis Medi:-

208 - Gillian Beynon, Bwlch y Ddwy Sir, Llandysilio
- £20

614 - John Arfon Jones, Cilhaul, Heol y Gogledd,
Hen Dŷ Gwyn - £10

Diolch i chi bob amser am eich cefnogaeth i'r Cardi
Bach. Cadwch yn ddiogel,

Rhian

WYN DAVIES a'i FRODYR
ADEILADWYR
Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn. 01437 563300

IFAN DAVIES
Saer Coed

Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA
07875 540469

W.J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a'i Ferch
SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU
Blaenwern, Clunderwen
Ffôn: 01437 563319

CORNEL Y DYSGWYR

gan Albie Abbot

GEIRFA: Llwyddo a Methu

Llwyddo, llwyddiant, llwyddiannus, aflwyddiannus, methu, methiant

Llenwch y bylchau gydag un o'r geiriau uchod, gan dreiglo os oes angen:-

Rydyn ni wedi caelmawr eleni

.....oedd ymgais y cyflogwyr i gyfathrebu a'u staff fu'n gyfrifol am streic

Dw i wedia chysylltu a'r rheolwr.

Gobeithiochi i ddatrys y broblem

Llongyfarchiadau i holl blant yr ysgol fu'nym mabolgampau'r sir

Caiff ymgeiswyrgyfle i ailsefyll yr arholiad y mis Tachwedd.

GEIRFA: Hen

Hyn, hynaf, henaint, heneiddio, henoed, hynafiaid

Mae fy mamgu mewn cartref

Dw i'n mynd yn anghofus yn fy

Mae'r ci'nna'r gath.

Roedd fy.....yn byw yn ardal Ffynnon Taf.

Hwn yw'r adeiladyn y pentref.



ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

COLIN JOHN Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartredig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

Teyrnged i'r Frenhines Elizabeth
Yn dawel rhown barch i'w mawrhydi
Merch enwog, a mam dda i'ww theulu
Brenhines ni gyd,
A gweddill y byd
Fe gofiwn â pharch, diolch iddi.
John, Hendygwyn

Adrian Llewellyn Groundworks Cyf

Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concriid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio
Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN
CLUDIANT

Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW
Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937


MERCHED Y WAWR

Cangen Hendygwyn

I gychwyn ein rhaglen eleni aethon ni draw i Sancler ar yr 20fed o Fedi. Ceson ni groeso mawr yn siop Llawn Cariad lle'r oedd John Gwynne yn llofnodi ei nofel ddiwedddara 'Cregyn Man y Mor'. Buon ni draw yn siop Pethau Olyv wedyn, wrth ein boddau ymysg y dillad pert. Am bedwar o'r gloch aethon ni i Hen Ysgol y Board i fwynhau'r te prynhawn mwya' moethus weloch chi erioed! Ond cyn i ni ddechrau bwyta cafwyd munud o dawelwch i gofio am ein ffrind annwyl Petra.

Roedd hi mor braf i fod yng nghwmni'n gilydd unwaith eto ar ôl toriad yr haf. Ym mis Hydref byddwn ni'n cwrdd ar y 18fed yng Nghanolfan Hywel Dda am 2.30 pan fydd Teifryn Williams yn ŵr gwadd.

Cangen Gronw

Hyfryd oedd cael ail ymgynull ar festri Ramoth Cwmfelin ar brynhawn bendigedig ar Fedi 29ain. Croesawyd Eurfyl Lewis i'n plith a chafwyd amser pleserus yn ei gwmni. Bu yn rhoi braslun o'i waith gyda'r Urdd a soniodd am brofiadau arbennig oedd wedi rhoi pleser mawr iddo a'r cyfle iddo ddatblygu fel person. Cawsom hanes nifer o ddigwyddiadau oedd wedi sefyll yn y côf ac adroddodd farddoniaeth o'i waith ei hunan ac o waith ei frawd yng nghyfraith Wyn Owens. Mae Eurfyl yn berson amryddawn ac yn gwneud cymaint o waith gwirfoddol. Rydym yn ffodus iawn i gael person mor weithgar yn yr ardal.

Edrychwm ymlaen nawr at ymweliad â siôp Pethau Olyv yn San Cler, ar brynhawn Iau, Hydref 27ain am 4 o'r gloch.

Yn dilyn cafwyd gyfarfod busnes dan lywyddiaeth Meinir Eynon.

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Marion, Mary, Rhiannon a Llinos.

Cydymdeimlwyd gyda Mrs Irene Davies ar farwolaeth ei phriod Derek rai wythnosau yn ôl, hefyd â Rhiannon Owen ar golli ei mam, Mrs Linda Owen ar Fedi 22ain.

Llongyfarchwyd Wenfys ar ddatlu ei phenblwydd yn 70 oed.

...hefyd Lowri a Gethin James a Seren Evans ŵyr ac wyresau Jane Evans ar raddio.

Diolchwyd i Meirwen ac Eirwen am drefnu rhaglen y flwyddyn, ac i Meirwen am argraffu y rhaglen. Casglwyd arian aelodaeth. Trafodwyd cofnodion y cyfarfod rhanbarth.

Cangen San Cler

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Llywydd, Annalyn. Roedd 26 aelod yn bresennol yn y noson gymdeithasol yn Nhafarn y Corvus.

Mwynhawyd pryd blasus o fwyd a diolch i'r Corvus am eu croeso a'r lluniaeth. Yn dilyn y gwledda cafwyd cyfarfod busnes.

Cyfeiriodd Annalyn at farwolaeth y Frenhines ac am ei gwasanaeth a'i ffydd. Ei gobaith oedd parhau i gael heddwch i'r byd.

Cydymdeimlwyd â Sharon wedi iddi colli chwaer yng nghyfraith.

Mae Sally a Marian wedi derbyn llawdriniaeth a braf deall eu bod yn gwella ac yn medru bod yn bresennol yn y cyfarfod.

Llongyfarchwyd Jo Heyde ar ei llwyddiant yn ennill coron Eisteddfod Pantyfedwen Llanbed.

Mae Ann Thomas a Marian wedi dathlu penblwydd arbennig a Marian wedi cael wyres newydd, Elodie Rhian.

Llongyfarchwyd Nest a Dafydd ar eu Priodas Diemwnt ac Ann a Hywel ar eu Priodas Aur.

Roedd sawl un wedi bod ynghlwm â digwyddiadau Cenedlaethol dros yr haf. Enillodd Beti-Wyn 3ydd gwobr yng Ngwobr Patagonia yr Ŵyl Haf am erthygl orau yn Y Wawr.

Roedd Lilwen wedi cystadlu yn y Sioe a roedd y blodau a wnaeth Eileen yn rhan o'r Enfys Gobaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Penwythnos.

Trefnodd Lilwen y blodau gogyfer â'r Penwythnos Preswyl a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin a roedd rhai wedi mynychu'r sesiynau yno.

Cafodd pawb ddarn o Gacen y Dathlu ac roedd digon i bawb.

Rhoddwyd gwobrau raffl gan Margaret Bowen a Rhian White ac fe'u henillwyd gan Iona ac Ann Thomas.



AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7-12.00

**MASNACHWYR
ADEILADU**

Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr

Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

**LAMO'S
MOTORCYCLES**



Dyma'r lle i feicmodurwyr

The Showroom
Llandissilio

Gwerthiant • Gwasanaeth • Atgyweirio

Ffôn / Ffacs: 01437 563678

Ken Davies a'i Fab
Cigyddion




London House
Crymymch




Ffôn: 01239 831978

Taith Gerdded Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda



Ar fore Sadwrn, 24ain o Fedi, a hithau'n fore lled heulog o hydref, cynhaliwyd taith gerdded flynyddol Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda. Taith gron oedd hi, yn dechrau yng Nghapel Cwm Miles ac yn gorffen yno; taith o 4.9 milltir ar hyd heolydd bryniog dyffryn Tâf. Ymunodd pedwar deg pump o gerddwyr â'r daith, yr ifanca'n bedair oed a'r hynaf yn eu hwythdegau hwyr. Pawb yn cymdeithasu wrth gydgerdded ac yn mynd ar eu cyflymder eu hunain, heb enwi'r diwetha wrth gwrs! Ac ar ôl cyrraedd y llinell derfyn, roedd gwledd yn ein haros yn festri Cwm Miles, wedi'i baratoi gan aelodau Capel Cwm Miles a Chapel Calfaria, Login. Roedd y calorïau a losgwyd wrth dd-ringo ambell ryw digon heriol wedi'u hailfwyta mewn chwinciad!

Diolch yn fawr i bawb fu'n trefnu, yn paratoi ac yn cymryd rhan yn y daith eleni eto. Diolch yn arbennig i Janice Morgan, yr ysgrifenyddes am gydlynw'r holl drefniadau. Bydd yr arian a gesglir yn mynd at dri achos da – Ambiw-lans Awyr Cymru; Diabetes Cymru a Meddygfa Preseli – ac yn cael ei drosglwyddo i'r tri achos hwn mewn noson cabaré yn hytrach nag oedfa o fawl er mwyn estyn allan i'r gymuned ehangach. Cynhelir y noson yn Neu-add Llanboidy ar Nos Wener 2il Rhagfyr 2022 am 7.30yh. Bydd y tocynnau allan cyn bo hir, felly gwyliwch y gofod gan obeithio y byddwch yno!

Cymdeithas Waldo

Waldothon

Ar ran Cymdeithas Waldo dymuna Mererid Hopwood ac Alun Ifans ddiolch o galon i'r arweinwyr grwpiau ar draws Cymru a drefnodd bod holl gerddi'r bardd Waldo Williams yn cael eu darllen yn ystod y Waldothon a gynhaliwyd ddydd Sadwrn, Hydref y 1af. Diolch hefyd i'r darllenwyr, y noddwyr a'r cefnogwyr. Amcan y Waldothon oedd hyrwyddo cyfraniad Waldo at lén Cymru a chreu ymwybyddiaeth o'i waith yn genedlaethol, ac fe lwyddwyd i wneud hyn.

Mae pob mudiad, elusen, clwb a chymdeithas angen arian i barhau â'r gwaith da maen nhw'n ei wneud, a dydy Cymdeithas Waldo ddim yn wahanol. Hyd yn hyn, mae'r Waldothon wedi codi dros £2000, ac mae mwy o roddion ar eu ffordd.

Rydym yn gwerthfawrog caredigrwydd a chefnogaeth pawb. Mae pob rhodd yn werthfawr i Gymdeithas Waldo.

Mererid Hopwood ac Alun Ifans



Winnie James Phillips

Mae digon o ffrwythau wedi aeddfedu eleni, felly beth am wneud Crymbl gan ddefnyddio mwyar neu afalau.

Cynhwysion:

1. 2 afal mawr (coginio)
2. 4 llond llwy de o siwgr
3. 1 llwy de o speis cymysg
4. Croen lemwn bach wedi ei gratio.

DULL

1. Torrwch yr afalau yn ddarnau a'u rhoi ar waelod dysgl bwdin
2. Ychwanegwch y sigwr, y sbeis a'r croen lemwn.

I wneud y crymbl

1. 5 ½ owns o fenyn.
2. 5 ½ owns o siwgrw caster
3. 5 ½ ownso fflwr plaen
4. 3 owns o uwd (rolled oats)

Cymysgwch y cyfan yn dda nes ei fod fel briwsion gan ychwanegu'r uwd yn olaf.

Gwasgwch y gymysgedd yna ei roi dros yr afalau (neu'r mwyar).

Pobwch mewn ffwrn 200°C ar y silff uchaf nes fod y ffrwythau yn feddal a'r top yn frown.

Gadewch i oeri ychydig cyn ei weini gyda cwstard twym.

Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE

Atgyweirio a M.O.T.

Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr

ALLPUMP SERVICES

ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON
A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH,
SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR

Fferm Ffynnonlwyd Llangynin
San Clêr SA33 4LD

Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693

e.bost: enquiries@allpump.co.uk

PHIL & SION HARRIES
SEIRI COED

EFAIL FACH
HENLLAN AMGOED

FFÔN:-
01994 240857

BLAENWAUN

Pob dymuniad da i Pam Evans, Sibrwd y Dail sydd yn anhwylyd ac yn yr Ysbyty. Mae'r teulu, ffrindiau a chym-dogion yn meddwl amdani ac yn gobeithio y bydd hi yn ôl yn ei chartref yn fuan.

Llongyfarchiadau i Manon Llewellyn ar ei llwyddiant yng nghystadlaeth trefnu blodau yn sioe Malvern.

Moriah

Oedfa sefydlu: (gweler y manylion yn y rhifyn hwn) Diolch i bob aelod a gymerodd rhan yn yr oedfa a'r rhai fu yn dosbarthu taflenni a tywys pobl i'w seddau. Diolch hefyd i bob un a gyfrannodd fwyd ac i'r aelodau fu yn helpu i'w weini. Diolch i'r dair eglwys arall am eu cydweithrediad. Cafwyd oedfa i gofio a gwledd i ddilyn ar y festri ym Mryn Iwan. Edrychwn ymlaen gyda hyder a phob bendith i Gareth ar ei weinidogaeth.

Taith Gerdded Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda

Cafwyd taith hwylus o amgylch Cwm Miles a Login. Diolch i'r aelodau fu'n cerdded ac i eraill am eu noddi. Diolch i gapeli Cwm Miles a Chalfaria am drefnu ac am y wledd ar festri Cwm miles i ddilyn.

Cymun undebol

Teithiwyd i Blaenycod ar Sul, Medi 11eg i oedfa gymun gyda'r Parchedig Gareth Ioan yn gwasanaethu. Diolch i'r Parchedig Tom Defis am ei wasanaeth ar Sul, Medi 18fed. Diolchwyd iddo hefyd am ei ymroddiad a'u wasanaeth i Gymorth Cristnogol. Dymunwyd yn dda iddo ar ei ymddeoliad.

Pleser oedd croesawu'r Parchedig Wyn Morris i'n gwasanaeth diolchgarwch ar Sul, 9fed Hydref.

Trefn yr oedfaon

23ain Hydref Cymun: Elonwy Phillips 2 o'r gloch 6ed Tach. Cymun: Parchedig Gareth Ioan 1.30 y p.

Penblwydd hapus i'n haelod hynaf Glyndwr Davies, bydd yn dathlu ei benblwydd yn 94 oed ar y cyntaf o Dachwedd yng nghartref Garreg Lwyd, San Clêr. Mae'r gweinidog y Parchedig Gareth Ioan a'r aelodau i gyd yn dymuno y caiff ddiwrnod dedwydd.

MEIDRIM

Henoed: Bu'r cyfarfod diwetha yn Neuadd Ieuenctid Meidrim pan ddaeth plant ysgol Meidrim i'n diddanu. Cawsom brynhawn hyfryd yn gwrando ar y plant yn

mynd trwy eu gwaith. Diolchwyd iddynt gan Glyn Harbour.

Ar Dachwedd 1af bydd ein Cwrdd Diolchgarwch dan ofal y Parch. Wyn Maskell, Ystrad Aeron. Yng ngofal y te fydd Morfydd Davies, Hilda Mason, Sally James a Glyn Harbour.

LOGIN

Calfaria

Oedfaon

Diolch o galon i'r Parchedig Euros Jones Evans, Mr Alun Lenny a Mrs Annalyn Davies am eu gwasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf. Tachwedd:

13eg - Judith Morris Cymun 2 o'r gloch

27ain - Tom Evans 10.30 o'r gloch

Rhagfyr:

4ydd - Lyndon Lloyd Cymun 2 o'r gloch

18fed - Cwrdd Nadolig 10.30 o'r gloch

Oedfa o Goffad

Cynhaliwyd oedfa hyfryd o goffad ar brynhawn Sul, Medi 18fed. Croesawyd pawb ynghyd gan Eurfyl Lewis a diolchodd ef i'r Parchedig Huw George am gynnig y syniad o gynnal yr oedfa, er mwyn coffau'r holl bobol bu farw yn ystod cyfnod tywyll a dieflyg Covid19 - yn ogystal a threfnu'r oedfa.

Cafwyd darlenniadau gan Tony Eynon (Cwm Meils) a Wyn Evans (Ramoeth, Cwmpelin Mynach) a chyflwynwyd yr emynau gan Eilir Davies (Rhydwylym), Dorothy Williams (Blaenconin) a Daniel Rees (Soar, Cwmpengraig). Cafwyd datganiadau swynol o'r Tangnefeddwyr, O Nefol Addfwyn Oen, Yr Arglwydd yw fy Mugail ac Anfonaf Angel gan Corlan, dan arweiniad Ceirios Jenner a cyfeiliant Heather Jenkins. Canodd Beti a Sian hefyd dwy gan swynol, Hebddot Ti (wedi ei chyfansoddi gan Mari Brame, er côf am ei gŵr Garry) a Ti Yw.

Gwnaeth yr eitemau hyn ychwanegu'n fawr at naws hyfryd yr oedfa. Cafwyd pregeth addas, amserol a pwrpasol gan y Parchedig Huw George, yn ôl ei arfer. Cyfeiliwyd yr emynau gan Ceirios a gwnaed casgliad tuag at waith Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda.

C J Waste cyf.

Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com



Prisiau ardderchog

Gwagio tanciau septig / carthbyllau

Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr. SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.

SPAR

Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol,
Gwin a Chwrrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy,
Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar
unrhyw achlysur.

Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.
Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.

Ffôn: 01994 419230



G WILLIAMS
a'i FEIBION

Monumental Masons

SEIRI MEINI COFFA

Pentre Yard

San Clêr

Ffôn: (01994) 231390



Dyma gwpled addas cafodd ei gynnwys ar y daflen goffad -

Er yn onest ymestyn ein dwylo i dawelu deigrin, yn y rhwyg ni wyr yr un alar yr unigolyn.

Gallwn ni gyd ddwud Amen i hynny.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad pennaf a diffuant gyda Jean, James, Kelly, Andrew, Marc a'r teulu ar farwolaeth merch, gwraig, mam a mamgu annwyl iawn, sef Iris Morris, Talar Wen. Bu Iris farw ar Medi 28ain a cynhaliwyd ei hangladd yn Amlosgfa Parc Gwyn ar Hydref 12fed, dan ofal y Parchedig Huw George. Bu Iris yn aelod ffyddlon yng Nghalfaria ar hyd y blynnyddoedd ac roedd hefyd wedi bod yn ddeiacon yno dros y saith mlynedd diwethaf. Mae'n gadael bwlch mawr ar ei hôl, yng Nghalfaria, o fewn y gymuned ond yn bennaf i'w theulu oedd mor annwyl iddi. Cwsg yn dawel Iris fach, coffa da amdanat.

Gwellhad

Dymunwn wellhad buan i Betty Evans, sydd wedi cael triniaeth ar ei llygad yn ddiweddar.

Priodas

Llongyfarchiadau i Megan Morris (merch Delyth a Kevin Morris, Bryntaf) a Sam ar eu priodas. Dymunwn bob hapusrwydd i'r ddau.

Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda

Diolch i Einir Evans, Sian Davies, Mari Brame a Bethan Allen fu'n cynrychioli Calfaria ar y daith gerdded nodedig flynyddol gynhaliwyd yng Nghwm Meils ar Medi 24ain. Diolch hefyd i Mefin Lewis am stiwardio yn ei char, i wragedd Calfaria fu'n paratoi bwyd i'r cerddwyr, ar y cyd gyda aelodau Cwm Meils ac i Beti James am gydlyn trefniade'r bwyd.

CWM MILES

Capel Cwm Miles

Diolch i'r aelodau am eu gwaith o helpu a threfnu taith gerdded Capeli Bro Hywel Dda ac am baratoi a gweini'r tê ar y festri. Hyfryd oedd cael gweithio gyda aelodau Calfaria. Diolch yn arbennig i Donna Molyneux am baratoi'r festri. Bore i gofio yn y cwm a chyfle i gymdeithasu. Gobeithio yn wir nawr daw yr arian noddi i fewn yn gyflym ac erbyn 30ain Hydref fan pellaf. Gweler y manylion ar y ffurflen noddi.

Cynhelir oedfa ddiolchgarwch y capel ar Sul, Hydref 30ain am 2 o'r gloch. Edrychwn ymlaen at wasanaeth Nigel Davies. Croeso cynnes i bawb.

Cylch Meithrin Ffynnonwen



Mae'r Meithrin yn mynd o nerth i nerth. Dyma luniau o galeri Oriel yn gwneud gweithgareddau gyda'r plant.

Ar Hydref 7fed ffarweliodd Miss Melanie â'r Cylch Meithrin. Diolch iddi am ei holl waith caled yn y Cylch a phob lwc iddi yn ei swydd newydd.



Miss Melanie yng nghwmni'r plant ar ei diwrnod olaf

Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen

Mae'r dosbarth gwnïo wedi ail ddechrau ar fore Sadwrn o 9-30 tan 11-30yb. Os am rhagor o fanylion cysylltwch â Meinir Eynon. Croeso cynnes i unrhyw un sydd â diddordeb.

Rhys Jones
Glanhauw
Simnai

Glanhau Simneiau • Cynnal a Chadw
Arolygiad Teledu Cylch Cyfyng
Tynnu nythod adar • Gwiriadau diogelwch
Gosod larymau Carbon Monocsid
Gwasanaethu/atgyweirio stoffiau a lleoedd tân
Yswiriant a chymhwysiadau llawn

☎ 07554 647544
www.rhysjoneschimneysweeping.co.uk

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin

Anrhegion Cyfoes Cymraeg
Llyfrau Cymraeg
CD's
Cardiau Cyfarch
a llawer mwy

Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen

GWASANAETH DOSBARTHU
AR GAEL

Os ydych am i ni archebu eich
presgripsiwn, cysylltwch â ni

Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe,
Clunderwen. SA66 7NP

Cynhelir cyfarfod o bwyllgor y Ganolfan ar Nos Fercher, 26ain Hydref am 7.30 i drefnu rhaglen am y flwyddyn. Rhaid cael cefnogaeth o'r ardal a dewch a'ch syniadau. Mae'n hen bryd i ni ail gychwyn. Cysylltwch â Roy Llewellyn Cadeirydd, Beti James Trysorydd neu Meinir Eynon Ysgrifennydd am rhagor o fanylion. Danfonir ebost allan i'r grŵp. Edrychwch allan amdano. Mawr obeithiwn am gefnogaeth dda o'r gymuned i sicrhau dyfodol y Ganolfan.

TRELECH

Llongyfarchiadau mawr i Arwyn a Teleri Bowen, Tresi Aur ar enedigaeth merch fach, Erin Gwen, chwaer fach i Lois ac Iwan ac wyres fach newydd i Aled a Helen, Tre-to Uchaf ac Eurfyl a Delyth, Rhos, Llangeler.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da hefyd i Islwyn a Novella, Nant y Cyw ar ddathlu priodas ddeiamwnt ar ddechrau mis Hydref.



Cafwyd oedfa Fedyddio yn y Capel ar ddiwedd mis Medi gan y Parchedig Robin Samuel. Bedyddiwyd Gwen, merch Buddug a Bedwyn, Rhos, Llangeler, a Llywelyn, mab Tegwyn a Ffion, Bryn Ambor.

Cynhaliwyd noson bingo llwyddiannus yn y Ganolfan ar ddechrau'r mis i godi arian tuag at redeg y Ganolfan Gymdeithasol ac at gostau cynnal a chadw parc y plwyf. Diolch i bawb wnaeth gefnogi.

Capel y Graig

Cynhaliwyd nifer o wasanaethau arbennig yn ystod y misoedd diwethaf. Yn gwasanaethu bu: Mai - 1af, Parchg Jill Hailey-Harries; 15fed, Parchg Robin Samuel, pan ddaeth aelodau Capel Pen y bont atom ar gyfer y Gymanfa Bwnc lwyddiannus iawn; Mehefin - 12fed, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb, Parchg Dyfrig Rees; 19eg, Miss Catherine Davies; Gorffennaf - 17eg Mr Peter Harries; 31ain y Bobl ifanc a'r Ysgol Sul gyda Barbeciw yn dilyn; Awst - 21ain, Mrs Gwendoline Evans. Diolch i bawb am wasanaethau hyfryd ac ysbrydoledig.

Ar 19eg o Awst aeth trip yr Ysgol Sul ar fws i Barc Deinosoriaid a Dinbych y Pysgod ac wedyn nol i Dafarn Beca am swper blasus. Diolch yn fawr i Eleri Rees a Meinir James am drefnu ac i Arolygydd yr Ysgol Sul, Alyson Harries, am loshin i'r plant.

Ar yr 2il o Hydref, cynhaliwyd Prif Rihysal y Gymanfa Ganu a'r Sul canlynol, 9fed cynhaliwyd y Gymanfa Ganu yn Hermon. Yr arweinyddes oedd Carys Hughes, Llanelli

a chafwyd canu gorfoleddus o dan ei harweiniad medrus. Diolch yn fawr i bawb fu'n cymryd rhan ac i Meinir Davies am drefnu te yn y ganolfan ac i bawb a fu'n helpu.

Diolch i bawb sydd wedi helpu mewn unrhyw ffordd. Diolch arbennig i athrawon yr Ysgol Sul, Eirlys Phillips ac Eleri Rees a hefyd y cyfeilyddion, Rosemary Evans, Eirlys Phillips, Buddug Rees, Eleri Rees, Miriam Thomas a Carys Williams.

Dyma fydd yn cymryd lle yn ystod y misoedd nesaf: Hydref - 16eg, Gwasanaeth am 1.30 gydag Mrs Annalyn Davies; 18fed, nos Fawrth am 7.00, Gwasanaeth Diolchgarwch gyda'r Parchg Gareth Ioan; 30ain, am 2.00 Gwasanaeth Cymorth Cristnogol Undebol Trelech a'r Cylch yng Nghapel Blaenycod; Tachwedd - 7fed, 1.30 Gwasanaeth Diolchgarwch y Bobl Ifanc a'r Ysgol Sul; 13eg am 2.00 o'r gloch, Parchg Catrin Ann Thomas; 27ain, 1.30, Mr Dafydd Evans; Rhagfyr - 4ydd, am 7.00 yh, Gymanfa Fodern gydag Ysgol Hafodwenog, 11eg, am 10.30 neu 1.30 Gwasanaeth Nadolig Plant yr Ysgol Sul a'r Bobl Ifanc; 24ain, am 11.30 yh, Plygain.

PENYBONT

C.Ff.I. - Cipiodd clwb C.Ff.I. Penybont ddau dlws yn ddiweddar, sef Cwpan John a Hazel James ar gyfer Clwb y Flwyddyn 2021-22 am y marciau uchaf yn holl weithgareddau'r sir.

Ac enillwyd Cwpan Coffa Elfyn Richards am y Clwb Gorau yn Siarad Cyhoeddus y Sir ar gyfer 2021-22.

Llongyfarchiadau enfawr i aelod Penybont a Llysgenhades y Sir, Mared Evans am gael ei hethol yn Is-Gadeirydd Pwyllgor Gweithgareddau'r Sir yn ddiweddar.

A daeth rhagor o lwyddiant i'r aelodau yn ystod yr wythnosau diwethaf. Daeth Gilbert Roberts yn 1af am baratoi oen. Daeth Elan Thomas yn 2il wrth farnu wyn tew, ac Olwen Roberts yn 3ydd. A daeth Elan yn 3ydd am baratoi cyw iâr.

CEFNYPANT

Capel Cefnypant

Bu farw Linda Owen, Canerw gynt, ar ddydd Iau, Medi 22ain, yn 96 oed. Bu Linda yn aelod ffyddlon yng nghapel Cefnypant ar hyd y blynyddoedd - tra roedd yn ffermio gyda'i gŵr Garfield yng Nghanerw, ac yna ar ôl iddi ymddeol a symud i fyw i Fro Waldo yng Nghlunderwen. Bu'n gyfeilydd yn y capel hefyd. Bu farw Garfield o fewn diwrnod yn ôl y dyddiad, sef Medi 23ain, a hynny pedwar deg pedwar o flynyddoedd yn ôl.

Yng nghartref gofal y Garreglwyd, Sancer y treuliodd Linda flynyddoedd olaf ei bywyd. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Rhiannon, Ellis, Huw, Alan a Meinir, a'u teuluoedd.

BANCYFELIN

Gibeon

Cafwyd Oedfa Gymun fendithiol yng ngofal y gweini-dog ar Fedi 18fed. Cyfeiliwyd gan Ann.

Mae'r Ysgol Sul wedi ail-ddechrau ers dechrau mis Medi a braf yw cael cwmni'r plant.

Llongyfarchiadau i Rhydian a Laura Davies, Llangynin, ar eu priodas ym mis Mai a Rhodri a Hannah Davies, (Derlwyn Taf) ar eu priodas ym mis Medi.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Lynn ac Ann Jones a'r teulu ar farwolaeth modryb Lynn, sef Vera James o Lanbedr Pont Steffan.

...hefyd bu farw cefnder Ann, sef Elvet Davies, gynt o Gilfach, Llanboidy.

Trefn oedfaon mis Tachwedd:

6ed : Oedfa Gymun yng ngofal y Gweinidog ym Methlehem Newydd

13eg : Oedfa yng ngofal Mrs Maria Evans ym Methlehem Newydd.

20fed: Oedfa Gymun yng ngofal y gweinidog yng Ngibeon.

27ain: Oedfa yng ngofal y Parch. Wynn Vittle ym Methlehem Newydd.

Bore Coffi MacMillan



Cynhaliwyd bore coffi i elusen MacMillan ar fore Gwener, 30ain Medi wedi ei drefnu gan Gapeli Cana, Bancyfelin a'r Priordy. Codwyd dros £1,200. Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd y bore ac i Ddirprwy Faer Tref Caerfyrddin, y Cynghorydd Wyn Thomas am y rhodd ariannol.

Dyma'r ddeuddegfed blwyddyn i gapeli'r ofalaeth drefnu bore coffi MacMillan. Edrychwn ymlaen am ei gynnal eto yn y dyfodol.

Cyrddau Diolchgarwch

Cynhaliwyd Cyrddau Diolchgarwch teuluol yng Nghapeli Cana a Bancyfelin bawn Sul, 9fed Hydref. Thema'r naill wasanaeth a'r llall oedd 'Mae cariad Duw mor felys a mêl'. Diolch i bawb a gymerodd rhan ac am y casgliad ardderchog o fwyd i'r Banc Bwyd. Derbyniodd pob plentyn botyn bach o fêl i'w hatgoffa am y gwenyn yn cyd-weithio.

Cafwyd oedfaon pregethu hyfryd hefyd yn ddiweddarach gyda swper cynhaeaf i ddilyn y naill oedfa a'r llall. Y pregethwr gwadd yng Nghana oedd Y Parchg Sian Elin Thomas ac yng Nghapel Bancyfelin y Parchg Roger Thomas. Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r achlysuron hyn.



Capel Bancyfelin



Capel Cana

Rosemarie Davies

Cyfrifydd Technegol

Treth Ar Werth
Cadw Cyfrifon

Cyflogau
Hunan Asesiad

Fferm Blaenwaun, Hebron

Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799

Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians



Delwedd
07814 543634

Salon Harddwch a Chyflenwol
Crymlych

Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion

POBYDDION
COUNTY STORES

San Clêr

Bara a chacennau ffres yn ddyddiol



Ffôn: 01994 230474

PWLL TRAP

Croeso i Sian, Cai a Cian sydd wedi symud o Gwmdud i'w cartref newydd yn Brynhedd. Hefyd, mae Elfyn a Dorothy Jones wedi symud i Lwyn Teg, o Langynin.

Llongyfarchiadau i Gwyndaf a Stephanie Williams ar ddatlu 30 mlynedd o fywyd priodasol ym mis Hydref.

Dymunwn wellhad buan i Iris Morgan, Gorsfach sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn â Annette a David Staak, Brynawel ar farwolaeth tad Annette yn diweddar.

Hefyd, ar Hydref 5ed, yn ddisymwth, bu farw Sandra Compton, Rosemead, Heol Bethlehem. Cydymdeimlwn â'i gŵr, Alan a'r plant Diane, Ricky a Sue a'r teulu ar eu colled.

Cydymdeimlwn, hefyd, â Valerie Mudge, Gorsfach ar farwolaeth ei merch, Delyth (Jenkins gynt.)

Bethlehem Newydd

Cydymdeimlwn â Howell a Sharon Jones ar farwolaeth chwaer Howell yn ddiweddar.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Beryl Hughes (Gellifelen gynt). Roedd yn byw yng Nghaerfyrddin yn ystod y blynyddoedd olaf ond parhaodd yn ffyddlon i'r oedfaon yn yr Ofalaeth tra bod ei hiechyd yn caniatáu. Roedd Capel Elim yn agos at ei chalon. Cydymdeimlwn â'r merched a'u teuluoedd yn eu colled. Coffa da amdani.

Hefyd, daeth y newydd am farw Dilwyn Thomas o Rydygors ychydig fisoedd ers dathlu ei benblwydd yn 90 oed. Bu yn ffyddlon ym Methlehem Newydd tra y gallai. Mae nifer yn cofio amdano, a'i briod, Beryl, yn rhedeg Clwb Gwerin yn y Penrheol nôl yn y 70au a'r 80au. Roedd yn meddu ar y ddawn i "yodlo" Cofiwn am Beryl yn ei thristwch a'i galar.

Llongyfarchiadau i Rolant a Harriet Glyn ar enedigaeth merch fach, Elodie Rhian.

Da yw deall fod Margaret Williams wedi gwella'n dda yn dilyn triniaeth ar ei llygaid a bod Arwel Jones, hefyd, yn well wedi cyfnod yn yr ysbyty.

Trefn oedfaon mis Tachwedd:

6ed : Oedfa Gymun yng ngofal y gweinidog

13eg : Oedfa yng ngofal Mrs Maria Evans

20fed: Oedfa Gymun yng ngofal y gweinidog
yng Ngibeon

27ain: Oedfa yng ngofal y Parch. Wynn Vittle

Tŷ Croeso

Codi arian at Lyfrau Llafar Cymru mae Tŷ Croeso yr Hydref hwn ac fel rhan o'r gweithgareddau cynhaliwyd Darllenathon yn y capel ar Hydref 1af. Roedd darllenwyr yn darllen rhan o Lyfr y Salmau neu'r Testament Newydd a chael eu noddi am wneud hynny. Bu'r darllenwyr wrthi am rhyw 5 awr a chodwyd swm dda o arian at yr elusen. Diolch i Annalyn a Marian am y syniad ac am drefnu.

Agorwyd y darllenathon gan Faer San Cler, Keith Major, ac yna bu Meirion Morris, Janet Lewis, Ann Jones, Jane Rees, Ruth Skingley, Iola Wyn, Rhodri a Marian Thomas, Annalyn Davies, Iona Morgan, Beti Thomas, Beti-Wyn James, Rhian White a Cynwyl Davies yn darllen yn eu tro.

Daeth nifer i wrando a braf oedd croesawu ffrindiau o eglwysi o enwadau eraill ac o'r gymuned. Diolch i Mair Davies, Rita James, Margaret Williams, Margaret ac Einir Rees am weini te, coffi a phice bach drwy gydol y dydd ac i Cynwyl am dynnu lluniau o'r holl ddarllenwyr. Diolch i aelodau'r Ofalaeth, eglwysi'r ardal a'r gymuned am gyfrannu i wneud y dydd yn llwyddiant.



Yn y llun gwelir Maer San Cler, Keith Major, gyda'r darllenwyr, cynorthwyyr a chynulleidfaoedd yn bresennol ar ddechrau'r Darllenathon ym Methlehem Newydd.

 **the LONDON HOUSE**
butchery

Stryd Sant Ioan
Hendygywn ar Daf
SA34 0AN

01994 240705 / 240055

Galwch mewn am y dewis gorau

Dilynwch ni ar Facebook 

 **GERALD BLAIN**
CYMDEITHION CYF

15 Stryd St Ioan, Hendygywn,
SA34 0AN

01994 240 366

GERALD@GERALDBLAINASSOCIATES.CO.UK

GERALDBLAINASSOCIATES.COM

@GBAssociates

RUSSELL THOMAS

GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR



Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen

Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

SAN CLER

Priodas dda



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Rhodri a Hannah ar eu priodas yn ddiweddar. Priodwyd y ddau yn Llundain ar Fedi'r 10fed. Mae Hannah yn wreiddiol o Lanybydder a Rhodri'n fab i Lyn a Bethan Davies, Derlwyn Taf. Priodas Hapus i'r ddau.

Apêl Sanclêr, Bancyfelin, Pwll-trap a Llangynin

Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr 2023

Cafwyd noson hwyliog i godi arian ar gyfer Apêl Sanclêr, Bancyfelin, Pwll-trap a Llangynin ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2023. Ar Fedi 16eg, cafwyd swper a sgwrs ddifyr gan y newyddiadurwr Tweli Griffiths. A diolch o galon i Sue a Philip Hughes am eu haelioni ac am y bwyd bendigedig yn Hen Ysgol y Bord.

Braf hefyd oedd gweld dau o bobl ifanc gweithgar a thalentog yr ardal, Hannah Richards o Sanclêr a Daniel O'Callaghan o Bwll-trap yn cyhoeddi'r Cywydd Croeso ar gyfer yr Eisteddfod, ar ddiwedd yr orymdaith yng Nghaerfyrddin i groesawu'r Eisteddfod i'r sir. Cafodd y gerdd ei chyfansoddi gan y Prifardd Hywel Griffiths, gynt o Langynog

RHYDYCEISIAID

Pleser oedd cael gwasanaeth Y Parch. Guto Llywelyn yn oedfâr Cymun ar Sul, Hydref yr 2il, diolch iddo. Cydymdeimlwn yn ddwys â Mr Hywel a Mrs Ann Morris, Golygfan ar farwolaeth perthynas, sef Mrs Iris Morris o Efailwen.

LLANBOIDY

Trinity



Llongyfarchiadau i Delyth Dent ar ôl iddi gael ei hethol yn gadeirydd Gofalaeth Bethel, Llanddewi, Tabernacl, Hendy-gwyn a Trinity, Llanboidy yn ddiweddar. A diolch i Tudor Eynon a wnaeth ymddeol ar ôl bron i 15 mlynedd fel y cadeirydd blaenorol.

Priodas Ddiemwnt



Llongyfarchiadau i Rose ac Elgar Saer ar ddathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol yn ddiweddar.



A llongyfarchiadau i Rose ar ddathlu ei phenblwydd yn 80 yn ddiweddar hefyd

DH	DAVID HARRIES & Co	DH
CYFANWERTHWYR FFACTORAU CERBYD		
Westgate, West Street, Hendy-gwyn ar Daf		
Ffôn: 01994 241100		
Batteries, Belts, Bearings, Compressors, Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.		

Bysiau Cwm Tâf	
"Os am deithiau hwylus braf Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"	
PENRHEOL, HEN-DY-GWYN, SA34 0NH	
01994 240 908 www.tafvalleycoaches.co.uk	

JTL PLYMIWR
• Gwasanaethau cerbydau a masnachol • Cerbydau masnachol a masnachol • Cerbydau masnachol a masnachol • Cerbydau masnachol a masnachol • Cerbydau masnachol a masnachol
01994 240 908 01994 240 908 01994 240 908

Chwaeroliaeth

Daeth yr aelodau ynghyd yn y festri prynhawn dydd Mercher, Medi'r 21ain. Croesawodd y llywydd, Wenfys Rees bawb i gyfarfod cyntaf y tymor, gyda'r aelodau yn cystadlu mewn cwis a baratowyd gan Wenfys a Delyth, ac ar ddiwedd y sesiwn, cyfartal oedd y timoedd. I orffen prynhawn hyfryd o gymdeithasu, cafwyd teisenau a dished o de wedi eu paratoi gan Wenfys a Delyth.

Sefydliad y Merched

Ar Fedi'r 8fed, cyfarfu'r aelodau yn Neuadd y Farchnad o dan lywyddiaeth Denise Harris. Trafodwyd busnes i ddechrau, a chyhoeddwyd y bydd y Grŵp yn cwrdd prynhawn dydd Sadwrn, Hydref 15fed yng Nghaffi Beca i gymdeithasu. Croesawodd y llywydd y gwestai, sef Debbie Drewett. Mae Debbie'n reolwr yng ngerddi Mencap, Stackpole. Sefydlwyd y gerddi nôl yn y flwyddyn 1770 i rhoi cynnyrch i deulu'r Arglwydd Cawdor, oedd yn byw yn yr hen blasdy sydd bellach wedi diflannu. Cymerwyd rhan o'r gerddi drosodd gan Mencap yn 1980, gan rhoi cyfle i rhai ag anghenion arbennig i weithio yno.

Ar ddydd Iau, Hydref 6ed aeth 13 o'r aelodau i'r Roadhouse i gael cinio ac i gymdeithasu.

Gwellhad buan

Da yw clywed bod Marion Davies, Castell Pigyn adref ac yn gwella wedi cyfnod yn yr ysbyty.

Penblwydd

Llongyfarchiadau a dymunir gorau i Ruth Davies ar ddathlu ei phenblwydd yn 50 oed mis diwethaf.

Cydymdeimlwn

Cydymdeimlwn â Rhiannon Davies, Llain a theulu Canerw wedi iddynt golli eu mam, Linda Owen.

....hefyd gyda Angela, Wyn, Ann a'u teuluoedd, ar golli eu chwaer Margaret.

....hefyd gyda teulu Maencoch, John Dent, Peter a Delyth sydd wedi colli gwraig a mam, sef Pat Dent.

CWMFELIN MYNACH**Ramoth**

Ar Sul, Hydref 2ail cafwyd gwasanaeth cymundeb o dan ofal Mr. Dafydd Evans, Trelech a'r Sul canlynol, oedfa brynhawn dan arweiniad Y Parchg. Huw George, oedfa ddiolchgarwch oedd hon. Gwnaed casgliad at Gartref Glyn Nest.

Dyma drefn oedfaon Tachwedd a Rhagfyr:-

Tachwedd 6ed : Dim oedfa

Tachwedd 13eg: Cymundeb dan ofal y Parchg. Ken Thomas am 2.00

Rhagfyr

4ydd: Oedfa Gymun dan ofal Mr. Nigel Davies - 10.30

11eg: Oedfa dan ofal y Parch Huw George - 2.00

18ed: Oedfa Nadolig - 10.30

Cydymdeimlwn â Susan Davies ar farwolaeth ei chyfnither, Margaret Gallon; hefyd a'r teulu i gyd.

.....hefyd â John Phillips ar farwolaeth cefnder, Elvet Davies.

Ysbyty. Dymunwn wellhad buan i Rhoswen Llewellyn sydd yn Ysbyty Glangwili ar hyn o bryd. Nid yw Rhoswen wedi bod yn dda yn ddiweddar ac mae wedi cael pob gofal gan ei phriod, Roy.

Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda

Diolch i Merle, Ivy, Llinos, Meirwen, Jac, Gwilym ac Osian am gynrychioli Ramoth ar y daith gerdded flynyddol ar Fedi 24ain.

Plac

Mae plac i ddangos gwerthfawrogiad yr ardal i Roy a Rhoswen Llewellyn wedi ei osod ar wal y festri yng Nghwmfelin. Diolch i Gymdeithas yr Hoelion Wyth, Cyngor Cymuned Llanboidy a Chyngor Cymuned Llanwinio am gyfrannu at y gost a diolch i Brian John am ei osod yn ei le.

RHYDWILYM

Brynhawn Sul, Medi 11eg, bu'r Parch Euros Jones Evans yn cynnal oedfa Gymun. Diolch iddo am ei wasanaeth.

Gwnaeth nifer fwynhau oedfa Gymun a Diolchgarwch ar fore Sul, Hydref 9fed. Diolchwn i'r chwaer Annalyn Davies am oedfa fendithiol iawn yn ôl ei harfer. Yr oedd casgliad y Cyfarfod Diolchgarwch eleni yn mynd i Ysbyty Tywysog Philip yn Llanelli, lle cafodd Russell Evans lawdriniaeth yn ddiweddar. Braf oedd croesawu yntau i'r oedfa, a clywed ei fod wedi derbyn canlyniadau da ar ôl y driniaeth.

Dymunwyd yn dda i Eluned Jones, a fydd yn mynd i Batagonia, ac yn aros yno hyd at mis Ebrill 2023.

SPAR 

 **Jerry Williams a'i Feibion**

GROSER a SWYDDFA BOST

 **CLOTH HALL LLANBOIDY**

Ffôn: 01994 448364 / 448221 

 **Adeiladwyr DORIAN PHILLIPS**

Crefftwyr o bob math yn y diwydiant adeiladu o hen i newydd

Arbennigwyr mewn ail wneud Capeli, Eglwysi ac Ysguborau

Dolau Gronw, Llanboidy, Hendygwyn, Sir Gar. SA34 0EE
Rhif: 01994 448435 Rhif Symudol: 07899 186036
e.bost: dorian@dorianphillipsbuilders.co.uk

dp MASNACHWYR ADEILADU

Plymio - Addurno - Coed - Draeniad Insiwleiddio - Ceginau - Bathrwm A Llawer Mwy!

LLANBOIDY - ARBERTH
01994 448435 - 01834 861118
www.dpbbuildingsupplies.co.uk

Bydd yn siwr o fwynhau wrth gasglu hen atgofion o'r blynyddoedd y treuliodd allan yn y Wladfa.

Bydd y cyfarfod nesa ar brynhawn Sul, Hydref 30ain, am 2 o'r gloch, â'r brawd Arwel Evans yn gwasanaethu.

EFAILWEN

Cydymdeimlwn â James Morris, Talarwen, Efailwen a'r teulu wedi iddynt golli gwraig, mam a mamgu annwyl sef Iris Morris. Brwydrodd salwch creulon am oddeutu deunaw mis gyda dewrder. Mae ein meddyliau hefyd gyda Jean Jones, sef mam Iris, gynt o Neuadd Wen, Efailwen.

Cofiwch wyllo Pobol y Cwm o hyn ymlaen gan fod bachgen o'r fro ynddo, sef Endaf Eynon Davies, mab Pamela a Russell Davies ac wŷr i'r diweddar Mair Eynon, Glandy Cross.

Cynhaliwyd Noson i Gofio am Undeg yn Nant y Ffin ddechrau Hydref yng nghwmni Dafydd Iwan a'r Band, Clive Edwards, Sioned Llewelyn ac Angharad James. Roedd y lle'n orlawn a phawb wedi joio noson arbennig. Roedd elw'r noson yn mynd tuag at Ymatebydd Cyntaf Crymmych a Chronfa Ifan Phillips.

HENLLANFALLTEG

Priodas Dda



Llongyfarchiadau i Megan Morris, Bryn-
taf, Llanfallteg a Sam
Pask o Llanwinio ar eu
priodas ar Fedi 23ain.
Pob dymuniad da i'r
dyfodol.

HENDYGWYN AR DAF

Tabernacl

Mae'r Hydref wedi dod ac erbyn hyn mae gweithgareddau'r hydref a'r gaeaf wedi dechrau.

Un o rheini yw taith gerdded flynyddol Cymdeithas-Capeli Bro Hywel Dda bob mis Medi. Y lleoliad eleni oedd Cwm Miles ac fe wnaeth 4 o'r ofalaeth ymuno gyda bron i 50 o bobol i gerdded i godi arian i achosion da. Ar y diwedd cafwyd te blasus yn festri capel Cwm Miles.



Taith Gerdded Blynyddol Capeli Bro Hywel Dda (o'r dde) Delyth Dent, Meryl James, Ann Lewis a Guto Llywelyn

Bedydd



Ar Sul cyntaf Hydref bedyddiwyd Bethan a Dafydd Maynard yn y Tabernacl. Maent yn blant i Sara a Tal gyda Sara o Fferm Llwyngwydd, Hendy-gwyn.

Waldathon

Cynhaliwyd Waldathon gennym ni yn ddiweddar sef prynhawn o gymdeithasu a darllen barddoniaeth Waldo Williams. Codwyd £140 at Gymdeithas Waldo.



Waldathon yn festri y Tabernacl, Hendywyn

Mae nifer wedi colli anwyliaid yn ystod y mis diwethaf ac rydym yn cydymdeimlo gyda'r rhai sydd mewn galar ar hyn o bryd.

Mae'r Ysgol Sul wedi ail-ddechrau bob dydd Sul a hynny ar yr amser newydd o 9.00 – 9.45. Rydym yn awyddus iawn i gael plant newydd i ymuno gyda ni. Os oes diddordeb gyda chi i ddod a'ch plant i'r Ysgol Sul, dewch unrhyw fore Sul i'r Tabernacl erbyn 9.00 o'r gloch.

Mae Cymdeithas y Tabernacl wedi ail-ddechrau cwrdd a hynny ar brynghawn Mawrth cyntaf bob mis.

Hefyd mae Grŵp Trafod y Beibl wedi ail ddechrau cwrdd trwy 'zoom'. Os oes unrhyw un eisiau ymuno cysylltwch gyda Guto ar 01269 851655.

Dyma oedfaon mis Tachwedd a chroeso cynnes i bawb.

Dydd Sul, 6ed am 9.30 - Oedfa Gymun

Dydd Sul, 13eg am 11.00 - Oedfa bregeth

Dydd Sul, 20fed am 10.30 - Oedfa dan ofal Parch Wynn

Vittle yn y Trinity, Llanboidy

Dydd Sul, 27ain am 11.00 - Oedfa bregeth

Hoelion Wyth-Cangen Hendygywyn

Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref ar nos Iau, 6ed o Hydref, fel arfer yn lolfa Clwb Rygbi Hendy-gwyn. Estynnodd y cadeirydd, Claude James groeso cynnes i'n siaradwr gwadd sef Ionwy Thorne o Fferm Studdolph, Aberdaugleddau.

Mae Ionwy yn perthyn i deulu'r Ciliau ac wedi bod yn dysgu Cymraeg i oedolion yn ogystal â bod yn weithgar iawn yng C.Ff.I. Llysyfran dros nifer fawr o flynyddoedd.

Mae'r teulu, sef Ionwy, ei gŵr George a'i merch Non yn bridio gwartheg pedigri Henffordd ac mae fferm Studdolph a'r fuches yn enwog drwy Brydain. Mae gwartheg Henffordd wedi bod yn Studdolph ers 1946 - 76 mlynedd! Tad-yng-nhyfraith Ionwy dechreuodd y fuches ond yn 1979, yn dilyn poblogrwydd cynyddol y bridiau cyfandirol, penderfynodd orffen a gwerthu'r fuches i gyd. Yn dilyn y gwerthiant penderfynodd y teulu gadw un fuwch er mwyn cadw'r llinach a dechreuodd Ionwy a George fagu buches o'r newydd a dros y blynyddoedd, gyda Non ei merch, sy'n frwdfrydig iawn, maent wedi mynd o nerth i nerth ac wedi arddangos ac ennill mewn sioeau dros Prydain. Hefyd, mae teirw a buchod Studdolph wedi eu gwerthu drwy Brydain a'r cyfandir.

Clôd mawr hefyd, yw iddynt lwyddo ddwy waith i ennill Buches y Flwyddyn, a hynny yn 2008 ac 2021.

Llongyfarchiadau i'r teulu ar ei llwyddiant a roedd y cyflwyniad, gyda chymorth lluniau yn ddiddorol dros ben. Diolchwyd i Ionwy gan Tegwyn Williams.

Waldathon



Trefor Evans ac Ithel-Parri Roberts o gymdeithas Hoelion Wyth Hendygywyn a'r cylch, yn llongyfarch disgyblion Ysgol Dyffryn Taf am ddarlenn gwaith Waldo Williams ar ddydd Waldathon.

Penblwydd Hapus yn 100 oed



Howard Gibbon o Hendy-gwyn ar Daf yn dathlu ei ben-blwydd yn 100 oed ar y 3ydd o Fedi. Mae yn y llun yma gyda'i orwyres Nerys yn dathlu ei phen-blwydd yn 12 oed ar yr un diwrnod. Cynhaliwyd parti i Howard yn Nant-y-Ffin, ac yn lle anrhegion,

derbyniwyd rhoddion ar gyfer Prostate Cancer UK. Rhoddwyd cyfanswm o £1,300 iddynt.

Hoffai Howard ddiolch i bawb am eu dymuniadau, eu cardiau a'u rhoddion.

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN

Canolfan
atgyweirio ceir



Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb

Dai James - Steven Owens

Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r
Ffynnon, Hendygywyn ar Daf

01994 240230 / 07972 725193

SIOP SIAN CRYMYCH



Crefftau Cymreig

Gemwaith Rhiannon

Crisial Brenhinol Cymru

Crefftau Lleol

Cardiau, Casetiau, CD's, Llyfrau

Crymych, SA41 3QF

FFÔN: 01239 831230



- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus

- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
 - Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
 - Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
 - Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn
- 1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

Nasareth

Er gwybodaeth i'r aelodau, bydd Oedfa o Addoliad yn Nasareth ar yr ail (2il) Sul o bob mis yn y BORE am 10:30. am y chwe mis nesaf.

Diolch

Dymuna Margarette Hughes ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u haelioni a gwneud dydd ei phen-blwydd yn un mor arbennig. Derbyniwyd rhoddion tuag at Tenovus a trosglwyddwyd swm o £1000 i'r elusen.

Diolch

Dymuna Gerald Blain ddiolch yn fawr i bawb am y cardiau a'r galwadau ffôn ac am bob cymorth a charedigrwydd a dderbyniodd adeg ac wedi'r ddamwain beic a gafodd ychydig amser yn ôl. Diolch i feddygon a staff Ysbyty Glangwili am y gofal arbennig.

Cylch Meithrin Hywel Dda**Enillwyr Clwb 200**

Mehffin

1af - £40 - Rhif 33 - Lisa Hughes

2ail - £20 - Rhif 103 - Steve Allen

3ydd - £10 - Rhif 37- Colin John

Gorffennaf

1af - £40 - Rhif 160 - Ken Smith

2ail - £20 - Rhif 165 - Heather Jenkins

3ydd - £10 - Rhif 111 - Sarah Morris

Awst

1af - £40 - Rhif 77 - Jane Thomas

2ail - £20 - Rhif 9- Alys John

3ydd - £10 - Rhif 145 - Ann Allen

Medi

1af - £40 - Rhif 29 - Ffion Moseley

2ail - £20 - Rhif 131 - Marlene Jones

3ydd - £10 - Rhif 35 - Luca a Mila Inward

Llongyfarchiadau i chi gyd. Diolch i bawb sydd wedi prynu rhif, rydyn ni'n gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn



Ffair Nadolig
Noson Siopa
Cylch Meithrin/Ti a Fi Hywel Dda
Neuadd Goffa Hendygwyn
SA34 0QB
Nos Fercher, Tachwedd 9^{fed}
5.30 - 8.30

Really Nice Soap & Candles	Made With Love by Sandra
Grandma's Knits	Decoupage by Anne
Calon Mam	Sheila Hettie
Rose & Alexander	TRHinket
Llawn Cariad	The Cake Shop - Whitland
FENS Home & Gifts	Suetropic
Matildas.uk	SRT Designs Limited
Julie Felted Goods	Little Croft Chocolate
Daryl Sweets Retro	Cwyr Cain
Pembrokeshire Sea Glass & Beach Art	The Yellow Honesty Shop
	Whitland

NEWYDDION BLAENCONIN

Cwrdd Eglwys

Cynhaliwyd Cwrdd Eglwys ddydd Sul, 18fed Medi 2022 i drafod nifer o faterion pwysig a chafwyd ymateb arbennig oddi wrth yr aelodau.

Dechreuwyd y cyfarfod gyda'r gynulleidfa yn adrodd Gweddî'r Arglwydd.

Rhoddodd y gweinidog adroddiad o'r hyn oedd wedi digwydd o safbwynt y weinidogaeth yn ystod y ddwy flynedd a hanner diwethaf gan sôn am ymateb yr Eglwys i'r pandemig a'i waith gyda nifer o Eglwysi ar hyd a lled yr ardal sydd yn ceisio dod i benderfyniad parthed y ffordd ymlaen.

Cafwyd adroddiad gan yr ysgrifennydd ar ei gwaith yn ystod cyfnod y pandemig gan gyfeirio at wybodaeth oddi wrth Undeb y Bedyddwyr ac ati.

Rhoddodd y trysorydd amlinelliad o gyflwr ariannol yr Eglwys a derbyniwyd yr adroddiad.

FFENESTRI/
M.W.J
WINDOWS
FFENESTRI, DRYSAU, Pŵc
YSTAFELLOEDD GWYDR
A GWTERI
TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
☎ 01437 563 806 ☎ 07774 812587

Caffi Beca
Oriau Agor 9.00yb-2.30yp
dydd Mawrth i ddydd Sadwrn
Efailwen
☎ 01994
419735

WYN'S TYRES
BRECIAU ac EGSOSTS
Galwch i mewn am brisau cystadleuol
a gwasanaeth heb ei ail
UNED 1
WEMBLEY GARAGE
SAN CLER
Ffôn: (01994) 231599

Trafodwyd nifer o faterion eraill yn ogystal ond rhaid 'cadw pethau'r tŷ yn y tŷ'.

Diolch i bawb am eu presenoldeb.

Cwrdd y Cofio

Cynhaliwyd Oedfa arbennig yng Nghalfaria, Login prynhawn Sul 18 Medi am 2 o'r gloch i gofio'r anwyliaid a fu farw yn ystod y Pandemig ac am y teuluoedd hynny fu'n gorfod galaru o dan amgylchiadau anodd iawn.

Crëwyd naws addolgar ar ddechrau'r gwasanaeth gan Eurfyl Lewis a'r gynulleidfa yn gwerthfawrogi cyflwyniad Corlan o eiriau Waldo Williams, Cofio, a cherdoriaeth Eric Jones.

Cyflwynwyd darlenniadau gan Wyn a Tony.

Cafwyd cyfraniad swynol gan Beti a Siân.

Soniodd Huw yn ei bregeth am bwysigrwydd y 'gymuned' a 'chyfeillgarwch' gan sylweddoli fod 'galar' yn brofiad personol iawn. Cyfeiriodd sylw'r gynulleidfa i'r ffaith ein bod nid yn unig yn greaduriaid 'cymdeithasol' ond ein bod, hefyd, yn bobol o 'ffydd a gobaith'.

Rhaid diolch i Ceirios Jenner am ei chyfraniad gwerthfawr wrth yr organ ac i Heather Jenkins am gyfeilio i'r Côr.

Diolch i bawb am 'Gofio' ... cofio'r anwyliaid a fu farw, cofio'r teuluoedd yn eu galar a'u gofid, cofio am bob un sydd wedi bod ac yn dal i alaru a chofio ein bod, oherwydd ein ffydd, yn medru edrych y tu draw i'r afon. 'Un funud fach ... i gofio'

Canmlwyddiant Cofeb Llandysilio

Dadorchuddiwyd Cofeb Llandysilio ar y 1af o Fawrth 1922 ac yn wahanol i'r mwyafrif, rhestrir enwau'r bechgyn yn ôl eu Rheng yn y Lluoedd Arfog. Mae'r mwyafrif o gofebion eraill naill ai'n gosod yr enwau yn ôl y wyddor neu yn ôl dyddiad eu marwolaeth. Cynhaliwyd gwasanaeth syml o flaen y gofeb ar ddydd Gŵyl Dewi eleni.

Canmlwyddiant Cofeb Clunderwen

Dadorchuddiwyd Cofeb Clunderwen gan yr Uwch-Ringyll Gwilym Lloyd George, Mab David Lloyd George, ar y 9fed o Fedi 1922. Mae'n debyg fod cynulleidfa niferus wedi dod ynghyd i dystio i'r weithred.

Ratifa

Mae Carden Nadolig yn enw'r Eglwys ar y ffordd i Ratifa yn Mozambique. Ychwanegwyd nawdd ychwanegol er mwyn iddi dderbyn anrheg Nadolig.

Oedfaon mis Tachwedd

Sul 6ed: Oedfa Gymundeb am 10.30 y bore

Sul 13eg: Sul y Cofio am 11 y bore

Cofeb Llandysilio

Eglwys Llandysilio

Sul 20fed: Oedfa bregeth am 10.30 y bore

LLANGYNIN

Priodas Aur



Roedd Ryan a Marcia Morris, 6 Llys Coed yn dathlu eu Priodas Aur ar Hydref 7fed. Priodwyd y ddau yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin.



Hefyd roedd Don a Susan Phillips, Gorwelion, yn dathlu eu Priodas Aur ar Hydref 21ain. Priodwyd y ddau yng Nghapel Trawsfynydd.

Llongyfarchiadau mawr i'r ddau gwpwl wrth iddynt ddathlu hanner can mlynedd o fywyd priodasol.

Gwellhad buan

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Paul Lewis, Min -yr-awel, yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty ym mis Medi.

Cydymdeimlad

Gyda thristwch y clywsom ar farwolaeth ddisymwth Linda Dalton, Amgoed. Cydymdeimlwn yn fawr iawn â'i phriod Colin a'r teulu oll yn eu colled.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Rhodri a Marian Glyn Thomas, Llanddwyn, ar enedigaeth wyres fach arall, Croeso mawr i Elodie Rhian, merch fach Rolant a Harriet.

Priodas

Llongyfarchiadau i Phillip a Marie Morgan, Awelfa, ar eu priodas ddiweddar a dymuniadau gorau i'r ddau ar gyfer y dyfodol.

Cartref newydd

Pob dymuniad da i Meredith a Rebecca Morris a'r teulu sydd wedi symud i mewn i fyw ar fferm yr Aber. Dymunwn ddyfodol hir a hapus iddynt yn eu cartref newydd.

Bingo'r Bryn

Cynhelir Noson Bingo yn y Bryn am 7 o'r gloch nos Iau, Tachwedd 17eg. Y galwr fydd Mr. Glyn Rees, Sanclêr. Bydd yr elw yn mynd tuag at gostau cynnal a chadw'r neuadd. Bydd dished o de neu goffi a raffl yn ystod yr egwyl. Croeso i bawb! Dewch yn llw i gefnogi eich neuadd leol!

Clwb 60+

Oherwydd salwch bu rhaid gohirio'r trip ym mis Gorffennaf, ond fe'i aildrefnwyd a daethom ynghyd ar ddydd Iau y 15ed o Fedi a bant a ni am Aberhonddu a'r Gelli Gandryll. Cyrraedd y ganolfan arddio a siopau yn yr Hen Reilffordd yn Three Cocks a gwneud yn fawr ohoni yn arlwy'r Ganolfan. Yna, ymlaen i'r Gelli Gandryll am ychydig amser cyn troi am 'nol am y gorllewin a chael swper ar y ffordd adref ym Mwyty'r Rheilffordd yn Nantgaredig. Bwyd blasus a chwmniaeth hyfryd ar hyd y dydd. Cafwyd diwrnod i'r brenin. Diolch i Elfed Lewis am ein gyrru'n saff ac i Eifiona Lewis am wneud y trefniadau.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref y 13eg pan fyddwn yn ymweld a Banc Bwyd, EXL yn Nhre Ioan, Caerfyrddin.

LLANDDEWI**Bethel**

Bu aelodau Bethel ar drip i gastell Caeriw yn ddiweddar. Ar ôl mynd am dro o gwmpas y castell cafwyd coffi a chacen yn y caffi. Os am ymuno ar ein trip misol nesaf rhwch wybod.

**LLANDYSILIO****Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn gyda Brenda Thomas, ar farwrolaeth ei gŵr John. Hefyd gyda Karen a Martin, y plant a gweddill y teulu.

Penblwyddi

Penblwydd hapus iawn i Ann Thomas, yn 70 ar 2il o Hydref.

...hefyd i Sion Jenkins, mab Carolyn a Paul a oedd yn 30 oed ar 7fed o Hydref.

Ironman

Llongyfarchiadau mawr i Colin Lewis, Rhys Mathias (llun ar dudalen 41) a Sam Harris ar lwyddo yn yr Ironman yn Ninbych y Pysgod ar 11fed o Fedi, ac i unrhyw un arall a goncrodd y sialens fawr yma. Da iawn wir.

Diolch

Hoffai Colin Lewis ddiolch i pawb am eu caredigrwydd drwy ei noddi. Mae wedi codi £550 at Ambiwlans Awyr Cymru.



Llongyfarchiadau a da iawn i Rhys Jenkins, Nia Lloyd, Ryan a Rebecca Pearce ar gymeryd rhan yn hanner marathon Llanelli.

Hanner Marathon Caerdydd

Hefyd llongyfarchiadau a da iawn i Nigel, Christine, Nia Bevan ac Emma Morris, am wneud Hanner Marathon Caerdydd.

Cyngerdd

Cynhelir Cyngerdd yr Adfent yng nghwmni 'Ensemble' John S Davies yng Nghapel Pisga Llandysilio am 3 o'r gloch, prynhawn Sul 27ain o Dachwedd 2022. Noddir gan Gelfyddydau Span a Menter Iaith Sir Benfro.

Pwyllgor Neuadd Llandysilio

Croeso i chi ymuno â phwyllgor Neuadd Llandysilio, ar yr ail nos Lun o bob mis, yn y Neuadd am 7.30yh. Byddai'n braf eich gweld yno. Dyddiad y pwyllgor nesaf yw Tachwedd 14eg.

Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio

Mis yma cafwyd noson Ffilm - 'Lady in the Van'. Mis nesaf, 7fed o Dachwedd, cynhelir ein cyfarfod blynnyddol. Os hoffech ymuno â ni mae croeso mawr i chi yn Neuadd Clunderwen am 7.30yh

Cylch Meithrin Llandysilio**Parti Calan Gaeaf**

Nos Wener 28ain Hydref

Neuadd Llandysilio

5.00 - 7.00 yh

Cynnwys Cŵn Poeth, diod,

Gemau a Disgo

Gwisg Ffansi orau

Pwmpen orau

**CYLCH MEITHRIN
LLANDYSILIO**

**Neuadd Llandyslio, Llandysilio,
Clunderwen, Sir Benfro SA66 7SY**

Ar Agor: pob bore

9.00 yb - 12.00

Arweinydd: Liz Lewis

Rhif Ffôn: 07760135392

neu: cmllandysilio@outlook.com

Rhif Elusen Cofrestredig - 1089716

**Cylch Ti a Fi
Llandysilio**

**I blant 0-4 oed a'i
Rhieni/gwarchodwyr**



Pob prynhawn Mercher

12.00 - 1.30yp

£2.50

Neuadd Llandysilio

**LLANGLYDWEN
Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Elen Lewis, gynt o Lluest ar ennill gradd Diploma Ôl-raddedig mewn Astudiaethau Iechyd Cymunedol - Dyfarniad Ymarfer Arbenigol mewn Nyrsio Ardal o Brifysgol Abertawe. Mae Elen yn nyrsio bellach ers 6 mlynedd a hynny fel nyrs gymunedol yn Aberteifi.

Llongyfarchiadau i Ifan Lewis, Lluest gynt, a Sioned Toft o Landudoch ar eu dyweddïad. Pob dymuniad da i'r ddau ohonynt.

Diolch

Dymuna Jill, teulu Lluest, a theulu Llwynhelyg, Mynachlogddu, ddiolch i bawb am y llu cardiau, galwadau a negeseuon a dderbyniwyd ganddynt yn dilyn marwolaeth mam Jill sef Glenys Owens. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Teyrnged i Glenys Mary Owens, Llwynhelyg, Mynachlog-ddu

gan Y Parch. Eirian Wyn Lewis



Gwraig o ddiwylliant cynhenid oedd Glenys, yn caru ac yn byw bywyd â gwerthoedd gorau Cymru yn sail iddo. Er mai un o Lanycefn, neu Llancewn oedd Glenys yn wreiddiol, treuliodd ei hoes faith ers dyddiau ei harddegau, ym Mynachlog-ddu.

Bu'n aelod gweithgar a diwyd ym Methel ers ei bedyddio yn bedair ar ddeg oed ddydd Sul, 25 Gorffennaf 1948 – 74 mlynedd yn ôl! Mynychodd yr oedfaon yn ffyddlon a chefnogi holl weithgareddau'r eglwys. Bu wrth ei bodd yn gweini gyda'r gwragedd yn y festri, ac yn y gegin Glenys oedd yn gyfrifol am wneud y te.

Darllenodd gannoedd o lyfrau ar bynciau amrywiol gan gofio'u cynnwys a rhannu'n fanwl y wybodaeth oedd ynddynt. Roedd yn meddu ar gof eithriadol ac yn mwynhau gweld pobl yn galw yn Llwynhelyg i gael sgwrs a derbyn o groeso'r aelwyd.

Ei dymuniad yn ifanc oedd cael bod yn nyrs, ond nid oedd amgylchiadau'r cyfnod yn caniatáu hynny, ac er na wireddwyd ei breuddwyd bu'n ofalus a chonsyrnol am ei theulu, a phob un arall, drwy gydol ei bywyd. Bu'n selog o'r dechrau i ddelfrydau Merched y Wawr gan fod yn aelod oes o'i changen leol yn Mynachlog-ddu a llenwi sawl swydd yng nghwrs y blynyddoedd. Bu'n dosbarthu ymhlith yr aelodau, Y Wawr, cylchgrawn chwarterol y mudiad am ddegawdau lawer.

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'i phlant a'u teuluoedd ac hiraethwn ninnau fel eglwys a chymuned o golli un a oedd yn hoff iawn gennym. Bydd hi'n chwith arnom hebddi.

Bethel, Mynachlog-ddu, Sir Benfro

Bu'n oedfa wir gofiadwy ym mhob ffordd ym Methel, Mynachlog-ddu bore Sul, 2il Hydref pan anrhegwyd pump o chwirydd yr eglwys am eu cyfraniadau gwahanol i hyrwyddo gwaith a thystiolaeth yr eglwys am nifer fawr o flynyddoedd.

Gwasanaethodd Cymraes Davies fel organyddes am 72 o flynyddoedd ac ysgrifennydd gohebol yr eglwys am

ddeunaw mlynedd, tra bu Annette Jones yn organyddes am 62 mlynedd a Rhian Davies a Jill Lewis am ddeugain mlynedd yr un. Gwerthfawrogi eu gwasanaeth holl bwysig am gynifer o flynyddoedd.



Elfair Jones, Parchedig
Eirian Wyn Lewis

Cyflwynwyd Medal Gee i Elfair Jones am ei ffyddlondeb oes i waith yr Ysgol Sul lle bu'n arolygydd ac yn ysgrifenyddes am flynyddoedd lawer ac yn ysgrifennydd ariannol yr eglwys am ddeugain mlynedd.

Mae Elfair, Cymraes ac Annette wedi rhoi gwasanaeth gwerthfawr hefyd fel diaconiaid yn yr eglwys.

Anrhydeddwyd Elfair gan Orsedd Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Maldwyn a'r Gororau yn 2015 am ei gwasanaeth i'w bro yn diogelu'r etifeddiaeth Gristnogol yn ei chymuned ac yn ei sir genedigol. Ac yn benllanw ar ei hymroddiad, yn ddi-os, roedd derbyn yn gwbl haeddiannol y Fedal Gee a gyflwynir i ffyddloniaid yr Ysgol Sul ers 1906.

Addurnwyd y capel mewn blodau a nwyddau amrywiol, ac fe'u cyflwynwyd i Fanc Bwyd Aberteifi.

Yn dilyn yr oedfa cafwyd cymdeithas felys yn y festri a gwledd o ddanteithion amrywiol i borthi'r gynulleidfa niferus.

Dymunwyd yn dda i Cymraes a'i phriod Islwyn wrth iddynt ymadael â'r fro a symud i fyw i Gaerdydd.

Bu'n ddydd o lawen chwedl yn ein hanes fel eglwys, ac wrth gofio a diolch am fendithion ddod, edrychwn ymlaen mewn ffydd i'r dyfodol. *E.W.L.*



Rhian Davies, Jill Lewis, Elfair Jones, Parchedig Eirian Wyn Lewis, Cymraes Davies., Annette Jones.



CARIAD O BETH CARDI BACH

YSGOL BRO BRYNACH

Diwrnod Ieithoedd Rhynglwadol

Bu'r ysgol gyfan yn dathlu 'Diwrnod Ieithoedd Rhynglwadol' ar Fedi'r 26ain. Daeth pawb yn eu gwisgoedd traddodiadol gan ddewis o blith gwledydd Ewrop a thu hwnt. Bu'r dosbarthiadau yn mwynhau sesiwn ddawns gan roi cynnig ar wahanol ddawnsfeydd o gwmpas y byd. I gloi'r diwrnod daeth pawb at ei gilydd i flasw bwydydd traddodiadol Ewropeaidd. Roedd yn ddiwrnod hwyllog dros ben ac yn rhan o'n gwaith thema i hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o'u rôl fel dinasyddion byd-eang.

Chwaraeon



Llongyfarchiadau gwresog i Mabli King am ddod yn drydydd yng ngystadleuaeth traws gwlad ysgolion Caerfyrddin a drefnwyd gan Actif Cymru. Aeth Mabli ymlaen i redeg eto yng nghystadleuaeth Traws Gwlad Dyfed ym Mharc Pembre, gan ddod yn bedwerydd mewn ras gyda hyd at 100 o redwyr. Gwych Mabli!



Llongyfarchiadau anferthol i Poppy Beynon a Gwenllian Dent am gael eu dewis ar gyfer tîm Rygbi Rhanbarth Sir Gaerfyrddin. Ewch amdani ferched!

Bu disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn cystadlu yn nhwrmament rygbi cymysg yr Urdd. Er na fu llwyddiant gwnaeth y tîm yn wych i sicrhau sgôr cyfartal mewn dwy o'r gemau.

Ymwelwyr

Hyfryd oedd medru croesawu hen ffrind yn ôl i'r ysgol sef y Parchedig Guto Llywelyn a ddaeth atom i arwain gwasanaeth cyntaf mis Hydref. Dyma'r tro cyntaf iddo ddychwelyd ers cyn Cofid ac roedd y plant wrth eu bodd yn gwrando ar ddwy stori o'r Beibl yn ystod y gwasanaeth.

Y Cyngor Ysgol

Bu'r Cyngor Ysgol wrthi'n brysur yn trefnu bore coffi Macmillan. Trefnwyd cacennau a disied yn y neuadd a bu'r plant yn brysur iawn yn trefnu'r raffl. Llwyddwyd i godi £200 tuag at yr achos teilwng yma.

YSGOL GRIFFITH JONES

Gwersi Nofio

Cafodd plant Blwyddyn 5 ddechrau prysur i'r flwyddyn ysgol drwy fynychu gwersi nofio bob dydd am dair wythnos.

Llongyfarchiadau

Ar Fedi'r 10fed ganwyd mab i Miss Carys Evans a'i phartner Lyn. Newyddion hyfryd. Llongyfarchiadau i chi.

Gŵyl Gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd 2023



Bu criw o ddisgyblion a staff yr ysgol yn gorymdeithio gyda Mistar Urdd trwy Gaerfyrddin ar fore Sadwrn braf, Medi'r 17eg yng Ngŵyl Gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd 2023. Ar ôl cyrraedd parc y dref roedd cyfle i ymlacio a mwynhau gweithgareddau amrywiol.

Clybiau

Mae'r clybiau ar ôl ysgol eisoes wedi dechrau i Fl.3 – 6. Mae dros gant o blant wedi ymuno â'r clybiau canlynol – celf, dawnio gwerin, chwaraeon, clwb digidol a chanu cwl. Hefyd cynhelir sesiynau hyfforddi pêl-rwyd a rygbi yn wythnosol.

Traws gwlad

Ar Fedi'r 22ain cafodd y tîm gyfle i redeg traws gwlad ar gaeau y Ganolfan Hamdden yng Nghaerfyrddin gyda disgyblion o ysgolion eraill yr ardal.

Bu'r tîm traws gwlad yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Traws Gwlad Sir Gâr ym Mharc Gwledig Penbre, ynghyd â 40 o ysgolion Cynradd eraill.

Dyma'r canlyniadau:

Tîm Bechgyn Bl.3 – 2ail

Tîm Bechgyn Bl.4 – 2ail

Bechgyn Bl.5 – Cian Edwards – 5ed

Tîm Bechgyn Bl.6 – 1af.

Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd



Roedd hi'n ddiwrnod lliwgar iawn yn yr ysgol ddydd Gwener, Medi'r 23ain. Gwisgodd y disgyblion ddillad coch, gwyn a/ neu wyrdd er mwyn codi arian tuag at Apêl Ardal Sanclêr – Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2023. Diolch am bob cyfraniad.

Rygbi



Llongyfarchiadau i'r bechgyn canlynol am gael eu dewis ar gyfer tîm rygbi'r Rhanbarth: Gwion Davies, Iestyn Davies a Morgan Jones.

Bu tîm rygbi cymysg yr ysgol yn cystadlu yn nhwrnament yr Urdd ar gaeau y Cwins, Abergwili. Gwnaeth y tîm yn arbennig o dda i ennill tair gêm allan o chwech.

Ymweliadau

Daeth cwmni theatr 'Mewn Cymeriad' i'r ysgol i gynnal gweithdy drama 'Y Mabinogi' gyda dosbarthiadau Pwyll a Branwen. Y bore canlynol aeth y disgyblion i Gastell Talacharn i wylïo'r sioe 'Straeon y Mabinogion.' Mwynhaodd y plant yn fawr iawn ac 'roedd yn berfformiad gwych.

Aeth dosbarthiadau Arthur, Gwenllian, Hywel, Rhianon ac Olwen ar drip i Techniquet yng Nghaerdydd fel rhan o'u gwaith thema ar y corff. Cafodd bawb hwyl a sbri yn rhoi cynnig ar ac yn datrys amrywiaeth o bosau yn ystod y dydd. Roedd y sioe wyddonol 'Pethau Amdanaf I' yn goron ar y diwrnod arbennig hwn.

TT Rockstars

Daeth staff a disgyblion Bl.3 – 6 i'r ysgol fel sêr roc ddydd Gwener, Hydref y 7fed. Cawsant ddiwrnod prysur a chyffrous yn ail-lawnsio 'TTRockstars' – adnodd i ddyddu ac atgyfnerthu tablau. Cynhaliwyd cwis rhwng staff a rhai o'r disgyblion yn y prynhawn a'r disgyblion oedd yn fuddugol.

Bananas am Ddim

Diolch i CK's Sancler am ei rhodd caredig o fananas am ddim i bob disgybl yn yr Ysgol.

Prosiect Cwpan y Byd



Mae disgyblion Bl.5 wedi bod yn brysur yn dysgu cân a ysgrifennwyd i longyfarch tîm pêl-droed Cymru ar gyrraedd Cwpan y Byd eleni, ynghyd â nifer o ysgolion y sir. Yna cawsant gyfle i fynd i Ganolfan S4C yr Egin i ffilmio, canu a mwynhau wrth recordio'r gân. Bydd y recordiad yn cael ei ryddhau ar Ddiwrnod Shwmae Sumae, sef Hydref y 15fed.

YSGOL BECA

Croesawu ein cynorthwydd Mrs Russant

Hoffem groesawu ein cynorthwydd newydd i Ysgol Beca, Mrs Russant. Mae Mrs Russant wedi ymgartrefi yn nosbarth Carn Menyn yn barod ac yn mwynhau bod yng nghwmni'r plant a'r staff. Diolch am eich holl waith caled.

Pontio Ysgol Bro Preseli

Ar y 26ain o Fedi buodd criw o ddisgyblion blwyddyn 6 ar antur am y diwrnod. Roeddent yn ffodus i fynd i Ysgol Bro Preseli er mwyn cael blas ar fywyd yn yr ysgol Uwchradd. Cafodd y plant ddiwrnod arbennig wrth gyfarfod athrawon a ffrindiau newydd. Cawsant gyfle i dderbyn ystod o wersi a derbyn taith o amgylch yr adeilad.

Prynhawn goffi Macmillan

Ar y 30ain o Fedi cawsom brynhawn goffi llwyddiannus yn yr Ysgol er mwyn codi arian i elusen Macmillan. Bu'r Cyngor Ysgol yn brysur yn helpu gyda'r trefniadau gan wneud gwaith gwyh yn trefnu'r raffl a gweini'r cacennau.

Daeth llond y neuadd o rieni a'r gymuned i fwynhau clonc dros goffi. Codwyd dros £200 i'r elusen ac felly hoffwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfraniau.

Gwersi Nofio

Ers dechrau'r tymor mae disgyblion blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 Ysgol Beca wedi bod yn mwynhau derbyn gwersi nofio yng Nghanolfan Hamdden Crymch. Mae'r disgyblion wedi gwneud cynnydd da yn barod ac yn magu hyder yn y dŵr.

Gwasanaeth Diolchgarwch

Byddwn yn cynnal gwasanaeth diolchgarwch Ysgol Beca ar ddydd Mawrth y 25ain o Hydref. Bydd y gwasanaeth yn dechrau am 10yb yng nghapel Nebo, Efailwen gyda'r Parchedig Huw George yn annerch y plant. Croeso cynnes i bawb.

YSGOL HAFODWENOG

Croeso i Bernice, Erin a Tomos sydd newydd ddechrau yn yr ysgol.

Sioe Roald Dahl

Buom yn ffodus iawn i gael Tudur Phillips i mewn i berfformio sioe ar Roald Dahl.

Pob lwc Miss Meleri

Hoffem ddweud POB LWC enfawr i Miss Meleri a rydyn ni'n edrych ymlaen i gwrdd â Babi Morgan. Diolch yn fawr iawn am bopeth rwyd ti wedi gwneud i Ysgol Hafodwenog a byddwn yn gweld dy eisiau.

PREN DA

Gwaith coed o bob math

Dafydd Makepeace

Fferm y Cross

Llandysilio

Clunderwen

Ffôn 07967 220289

**DERI PAGE
CIGYDD**

Cig o'r ansawdd gorau

Heol y Pentre
San Clêr

Ffôn: 01994 230062

Diolch am eich cefnogaeth



CONTRACTWYR ADEILADU

Gwasanaeth Cyflawn
Wernddu

Stryd y Brenin Edward
Hendygwyn ar Daf

SA34 0AA

Ffôn: 01994 240534

Symudol: 07966 411443

Gŵyl Cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd

Diolch i bawb a gynrychiolodd Hafodwenog yng Ngŵyl Gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd, Sir Gâr. Rydym hefyd mor falch ein bod wedi ennill cystadleuaeth y faner orau yn yr Ŵyl.

Clwb Hwyl

Cafodd pawb gymaint o hwyl yn ein 'Clwb Gwylt' cyntaf. Diolch yn fawr Elanor am redeg y clwb!!

YSGOL BRYNCONIN**Senedd yr Ysgol**

Rydym wedi newid ein Cyngorau Ysgol am eleni er mwyn sicrhau ein bod yn cryfhau ar Lais y Disgybl. Eleni mi fydd gennym ni 5 cabinet gwahanol yn bwydo syniadau mewn i Senedd yr Ysgol. Llongyfarchiadau enfawr i bawb sydd wedi cael eu hethol i'r Senedd, Cabinet Iaith a Diwylliant, Cabinet Amgylchedd ac Hawliau Plant, Cabinet Iechyd a Lles, Cabinet Cwricwlwm a Chabinet Cyfathrebu.

Cofio Waldo Williams

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau amrywiol ar ddydd Gwener, 30ain o Fedi er mwyn cofio ein bardd lleol – Waldo Williams. Dysgwyd cerddi 'Pitrann Patran,' 'Y Morgrugyn' a 'Chwarae.' Bu dosbarth Rhuddem ar daith cerdded o gwmpas lleoliadau pwysig Waldo Williams yn y pentref. Canwyd cân 'Y Tangnefeddwyr' a chreuwyd ffilm am hanes bywyd Waldo.

Gweithdy Bee Active

Fel rhan o waith thema Dosbarth Diemwnt, cafwyd cyfle i ddysgu mwy am fywyd y wenynen a dysgwyd am bwysigrwydd cydweithio. Diolch i gwmni Bluestone am noddi'r gweithdy.

Taith i gefnogi Tîm Pêl Droed Merched Cymru

Ar nos Iau, 7fed o Hydref teithiodd plant a rhieni Ysgol Brynconin i Stadiwm Bêl Droed Caerdydd er mwyn cefnogi tîm merched Cymru. Braff hefyd oedd cefnogi cyn ddisgybl yr Ysgol; Angharad James oedd yn chwarae i'r tîm. Rydym yn ymfalchio yn llwyddiant Angharad sydd yn gyn ddisgybl o Ysgol Brynconin. Cafwyd amser da, er ein bod ni gyd wedi blino!

Gwersi Ukuleles: Mae disgyblion o Flynyddoedd 3 a 4 yn cael gwersi ukulele yn ystod yr hanner tymor yma. Mae pob un yn mwynhau datblygu eu sgiliau cerddorol.

Colofn Garddio

gan W John Davies

Rwy'n eistedd i lawr i ysgrifennu ar y 4ydd o fis Hydref a mae wedi bod yn glawio yn gyson drwy'r dydd a diolch am hynny. Dyma'r flwyddyn sychaf a gofiad erioed, yn sicr oddiar ddechrau'r ail rhyfel byd, ond diolch i'r drefen mi gawsom ambell gawod ym mis Medi. Mae hwn yn ddefnyddiol iawn i gadw ansawdd y pridd i fyny yn ein gerddi ac os oes gennych goed neu flanhigion sydd yn blodeuo yn weddol gynnar flwyddyn nesaf, mae gofyn iddynt gael eu dyfrio'n gyson amser hyn o'r flwyddyn er mwyn iddynt allu datblygu eu had a blodeuo yn amserol yn y gwanwyn. Ar hyn o bryd, mae'r ddaear yn brin iawn o ddŵr, ond wedi dweud hyn mae'r dail ar y coed o amgylch ein gwlad yn edrych yn wych ryfeddol. Rwy'n edrych mlân i fwynhau gweld lliwiau bendigedig cyn y gaeaf, oherwydd mae'r coed Ceirios a'r Cnau yn newid eu lliw yn barod.

Rwyf wedi clywed fod llawer o fobol wedi colli tomatos oherwydd beth ni'n galw "Blossom end rot" - hynny yw, pydru yng ngwaelod y ffrwyth. Mae hyn eto oherwydd sychder ac mae'n digwydd oherwydd prinder calch yn y dŵr mae'r planhygion yn tynnu i fyny o'r pridd maent yn tyfu ynddo. Mae'n bosib bod digon o galch yn bresennol ond bod y pridd yn rhy sych i'w doddi, neu i gymryd i fyny, felly mwy o ddŵr ar dywydd sych yw'r ateb. Ar y llaw arall, os yw'r calch yn brin, pan ydych yn paratoi am flwyddyn nesaf, defnyddiwch llawn dwrn dda o galch i bob llathed o'r tir cyn plannu. Cymysgwch hwn yn dda, ac i fod yn siwr, ychwanegwch llawn dwrn o galch i'r dŵr wrth ddyfrio unwaith y mis a dylai hyn wedyn, fod yn ateb llawn i'r broblem.

Oherwydd fy oedran, rwyf nawr yn prynu'r holl dato sydd eisiau ar ein teulu bach ni. Yn ddiweddar, mi brynais gwodyn llawn o dato organig, a wir, yn fuan roedd yn amlwg eu

bod yn pydru, neu yn llawn blast neu ffwng, ac felly yn hollol ddiwerth. Mae hyn yn dweud eu bod wedi cael eu tyfu mewn daear yn llawn o'r clefyd arbennig hwn. Mae'r broblem hyn yn weddol ddifrifol, yn enwedig a'r tywydd mor sych. Os ydych yn tyfu tato, mae erbyn hyn yn hawdd i orchfygu'r "blight". Ers llawer blwyddyn bellach, rwyf wedi chwistrelli'r tir tato a chymysgeth o chwe llawn llwy ford o 'domestos' i bob galwyn o ddŵr, pum galwn o hwn i pob llathed sgwar o dir. Gwnewch hyn ar amser weddol sych yn y gaeaf a dyna fydd diwedd y broblem. Rwyf wedi arbrofi y dull yma yn llwyr, a gallaf ddweud heb flewyn ar fy nhafod, fod hyn yn glanhau a gwella ansawdd y pridd ac yn codi fy nghalon. Rhyw ffordd neu gilydd, mae'r mwydon yn datblygu llawer gwell hefyd. Erbyn hyn rwy'n adnabod sawl person syn defnyddio'r dull yma pob yn ail flwyddyn, ac yn hapus iawn â'r canlyniad.

Os am rywbeth gwyrdd i fwyta yn y gaeaf, prynwch dun o bys wedi eu sychu. Hauwch rhain ar fodfedd o bridd mewn bocsis yn y tŷ gwydr a mi fyddant fawr o dro yn egino. Yna, torrwech hwy a'u defnyddio pan fyddant ryw ddau fodfedd o uchder ac os ydych wedi sychu eich sialots, beth am blannu y rhai bychan nôl yr un modd hefyd!

Cymdeithas yr Hoelion Wyth

Cyflwyno sic i Tir Dewi



Eurfyl Lewis, Cadeirydd Cymdeithas yr Hoelion Wyth yn cyflwyno sic o £1375 i Wyn Thomas, elusen Tir Dewi. Hefyd yn y llun gwelir aelodau o ganghennau Aberporth, Beca, Cors Caron, Hendy Gwyn a Sion Cwilt. Codwyd yr arian o ganlyniad i dwy noson o adloniant gynhaliwyd yng nghlwb bowlio Tregaron, yn ystod wthnos yr Eisteddfod Genedlaethol.



Preselstorage cyf.

Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159

GORSAF BETROL PRESELI CYF.

Llanddewi Elfelfre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd



01834 860227



R. M. JONES

CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD

Bridge End House
Clunderwen

Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigi@hotmail.com



Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon

Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
E-bost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawncariad
www.llawncariad.co.uk

Bydd cerflun o Twm wrth ymyl Caffi Beca

O dan gadeiryddiaeth Robert James profodd cyfarfod cyntaf yr ymgyrch i godi cerflun o Twm Carnabwth yng Nghaffi Beca ar Fedi'r 20fed yn hynod hwylus. Mater o lawenydd i'r 13 a oedd yn bresennol oedd clywed fod Robert ei hun yn fwy na pharod i leoli'r cerflun ar safle'r Caffi. Soniodd am y cynlluniau sydd ganddo i ddymchwel ac ail godi Caffi Beca gan wneud yn siŵr y byddai'r cerflun yn rhan ganolog o'r fenter. Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin ar fin cymeradwyo'r cynllun a rhagwelir y gall gymryd dwy flynedd i gwblhau'r gwaith.

Pwysleisiodd Robert fod y cynllun sydd wedi'i gyflwyno eisoes yn caniatáu gofod ar gyfer materion treftadaeth a hanes lleol. Mae ei brofiad yn rhedeg y busnes wedi dangos bod yna ymwelwyr yn galw'n fynych a'u bod yn ymddiddori yn yr ardal ond nad oes yna fawr ddim gwybodaeth ar gael iddyn nhw.

Bwrw ati ein hunain

Calonogwyd pawb a oedd yn bresennol wrth iddo ddweud nad oedd diben cintachu ynglŷn â hynny, yn hytrach ond bwrw ati ein hunain i ddiwallu'r angen. Os na wnawn ni ddangos balchder yn ein treftadaeth, does dim disgwyl i neb arall wneud, oedd byrdwn ei sylwadau.

Wrth i bawb gael eu tanio gan ei eiriau fe gafwyd bwrlwm o syniadau wedyn ynghylch comisiynu cerflun, ei ddylunio a'i ariannu. Nodwyd enwau nifer o gerflunwyr fyddai efallai â diddordeb, crybwyllwyd y dylai'r cerflun fod o efydd ac yn ôl pob tebyg yn dangos Twm ar gefn ceffyl wedi'i wisgo mewn dillad dynes – yn union fel yr oedd yntau a gweddill Merched Becca wrth ymosod ar iet Efail-wen yn 1839.

Roedd yna frwdfrydedd wrth drafod dulliau o godi'r arian sylweddol fydd ei angen. Nodwyd bod yna gronfeydd perthnasol ar gael yn ymwneud â materion treftadaeth a oedd eisoes wedi cynorthwyo i godi cerfluniau yn ddiweddar i gofio unigolion fel Betty Campbell yn Nhre Biwt ac Elaine Morgan yn Aberdâr a Chranogwen yn Llangrannog. Soniwyd am gronfeydd sydd gan Gyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Gâr fyddai'n medru cynorthwyo.

Awgrymwyd y gallai'r nod fod oddeutu **£40,000**. O gofio hynny pwysleisiodd y Cyng. Shon 'Midway' Rees y byddai pobl y fro am gyfrannu hefyd am y byddan nhw am deimlo elfen o berchnogaeth yn y prosiect. Buan aeth y dychymyg yn drên wrth awgrymu dulliau o godi arian yn lleol trwy wahodd yr holl ddoniau yn ein plith i gymryd rhan. Roedd y cart ymhell o flaen y ceffyl erbyn hynny. Dechreuwyd son am y trefniadau dadorchuddio hefyd!

Daeth y cyfarfod i ben wedi awr gynhyrfus o drafod a siarswyd Eurfyl Lewis fel darpar drysorydd a Hefin Wyn fel darpar ysgrifennydd i ddarparu gwybodaeth bellach ynghylch ariannu a chomisiynu erbyn y cyfarfod nesaf. Yn sicr, doedd dim amheuaeth ynghylch y gefnogaeth i'r fenter gan fod mwy na'r nifer a oedd yn bresennol wedi ymddiheuro nad oedden nhw yno. Roedd y brwdfrydedd yn heintus.

Eisoes ers i'r hanes am y cyfarfod fynd ar led mae yna unigolion o bob rhan o Gymru wedi cysylltu yn holi sut fedran nhw gyfrannu i'r gronfa. Mae'n rhaid bod Twm Carnabwth yn dipyn o arwr. Datgelir mwy o fanylion yn y man.



Gwrandod astud



Trafod brwd

H THOMAS a'i FAB
Peiriannydd Amaethyddol



Partiau, Gwasanaeth
 Tractorau Newydd ac Ail-law
 Ffôn: 01994 240349 / 240770

D. E. PHILLIPS
 a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
Trydanwyr

Slop Radio a Theledu
CRYMYCH

Setiau ar werth

Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

MASNACHWYR ADEILADU
DAVIES

Cyflenwyr Adeiladu a D.I.Y.
 Arddangosfa Ceginau
 ac Ystafelloedd Ymolchi
 ar agor



Heol yr Orsaf
 Hendygwyn
 Ffôn:
 01994 240228

Cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr

Roedd hi'n hyfryd gallu croesawu dros fil o bobl ifanc, eu teuluoedd a'u hathrawon i Gaerfyrddin ar gyfer dechrau gweithgareddau Gŵyl Gyhoeddi Sir Gâr, 2023 ar ddydd Sadwrn, Medi'r 17eg. Fe orymdeithiodd ysgolion Cynradd ac Uwchradd, Aelwydydd, Adrannau a chylchoedd meithrin o bob cwr o'r sir gyda'i gilydd o faes parcio San Pedr ar hyd Heol y Brenin, trwy sgwâr Nott, heibio Guildhall ac i fyny Heol Awst i'r Parc. Roedd hi'n hyfryd clywed, gweld a theimlo'r bwrllwm ar hyd y dref gyda'r bandiau amrywiol yn atseinio. Roedd baneri'r ysgolion yn chwifio, y bobl ifanc yn llawn bwrllwm yn eu coch, gwyn a gwyrdd a'r haul yn gwenu ar y cyfan.



Wedi i'r orymdaith gyrraedd y parc roedd ymdeimlad o ŵyl yn eu croesawu gyda stondinau, ardal chwaraeon a llond lle o adloniant ar y llwyfan ar eu cyfer. Cyflwynwyd testunau'r Eisteddfod yn swyddogol gan Carys Edwards, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith Lleol i'r Urdd yn ystod y rhan hon ac mae'r rhestr testunau ar gael i bawb ar wefan yr Urdd erbyn hyn.

Hefyd, cyflwynwyd y baton sydd wedi'i greu'n arbennig ar gyfer Eisteddfod yr Urdd, Sir Gaerfyrddin gan Mared Davies. Bydd y baton yn mynd ar daith ar hyd y sir tan fis Mai nesaf ac yna'n cael ei drosglwyddo ar ddiwedd yr Eisteddfod i Bwyllgor Gwaith Maldwyn ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2024. Cawsom ddarlleniad o Gywydd Croeso'r Eisteddfod a ysgrifennwyd gan y Prifardd Hywel Griffiths a disgyblion ysgol Rhys Prichard, Llanymddyfri gan y llefarwyr lleol Hannah Richards a Daniel O'Callaghan. Cafwyd perfformiadau amrywiol gan Aelwydydd Hafodwenog, Penrhyd, y Neuadd Fach, Llyn y Fan, Cynwyl Elfed, Adran Llyn y Fan a Chlocswyr Cowin yn ogystal â chyfle i'r plant ifanc ddawnsio yng nghwmni Siani Sionc, cyflwynwyr Cyw a'r hyfforddwr personol Elin Wyn.

Roedd hi'n hyfryd cael cyfle i

gyflwyno'r Urdd i gynulleidfaoedd newydd yn ystod y dydd a'u hannog i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd. Gwelwyd stondinau amrywiol gan nifer o fudiadau megis y Mentrau Iaith, Mudiad Meithrin, Dysgu Cymraeg ac eraill yn ogystal â rhai stondinau gan fasnachwyr lleol. Roedd llwyddiant y diwrnod yn ffrwyth gwaith misoedd o drefnu gan wirfoddolwyr o'r Pwyllgor Gwaith a swyddogion yr Urdd a charai'r pwyllgor ddiolch o galon i bawb a fu'n gwirfoddoli ar y diwrnod. Daeth y dathliad i ben yn sŵn cyfoes y band ifanc lleol 'Bald Patch Pegi' a chyfle i'r hen a'r ifanc o bell ac agos ddod at ei gilydd i werthfawrogi cyfoeth ein cerddoriaeth Gymraeg boblogaidd. Cafodd nifer o blant ifanc y cyfle i gwrdd â'r dyn ei hun, Mr Urdd, am y tro cyntaf ac roedd hi'n braf ei weld yn ymuno yn yr hwyl a'r dawnsio!



Ar y dydd Sadwrn canlynol, fe barhaodd y dathlu wrth i'r baton gael ei dywys ar daith feiciau o Gaerfyrddin, ar draws y sir i Lanelli a Rhydaman cyn dod i stop yn Llanymddyfri. Cafwyd gorymdaith arall ar gyfer yr ysgolion lleol a dathliad mawreddog yno eto. Byddwn fel Pwyllgor Gwaith a Phwyllgorau Lleol yn parhau i gynnal digwyddiadau i godi arian a chodi ymwybyddiaeth am yr Eisteddfod ar draws y sir am y misoedd nesaf. Am wybodaeth ddiweddaraf, cofiwch ddilyn Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2023 ar Facebook.



Baton Eisteddfod yr Urdd



Gofynnwyd i Mared Davies o Landdarog i greu Baton i'w gyflwyno yn yr Ŵyl Gyhoeddi fel gwrthrych a fyddai'n teithio o amgylch ysgolion Sir Gaerfyrddin dros y flwyddyn nesa' ac i fynd ar y daith beics o gwmpas y sir i dynnu sylw a chodi ymwybyddiaeth fod Eisteddfod yr Urdd yn dod i Sir Gaerfyrddin. Bwriad y baton yw ei fod yn cael ei gyflwyno ar nos Sadwrn ola' Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i Bwyllgor Gwaith y Steddfod nesa' er mwyn codi ymwybyddiaeth yn ei hardal hwythau hefyd.

Mae Mared yn gerflunydd a gôf sydd yn creu darnau cerfluniol gan ddefnyddio haearn, tecstilau a hen ddeunyddiau hindreuliedig. Graddiodd o Goleg Celf Caerfyrddin yn y maes Cerflunio. Mae hi'n ferch fferm, ac felly'n cymryd deunyddiau/eitemau a fu'n werthfawr ar un adeg ar y fferm a fyddai'n cael eu gwerthfawrogi unwaith eto mewn byd celfyddydol.

Dywedodd Mared: "Bwriad fy ngwaith yw i gyfleu pwyydw i gan ddefnyddio'r deunyddiau dur, haearn a thecstilau. Wrth gyfuno'r deunyddiau hyn rwy'n ceisio gwrthio yn erbyn yr hyn sy'n cael ei weld fel y rôlau penodol yn ôl rhyw yn y gweithle. Wrth ychwanegu deunyddiau'r fferm rwy'n cyfuno elfen arall o fy mywyd i fy ngwaith ond hefyd yn rhoi rôl metafforig i'r offer hyn."

Mae Mared yn wyres i Aeres a'r diweddar Alun Jones, Bronllys, Hendygywn (gynt o Fron, Logiri)



COED TÂN FFERM RHYDWEN

Coed Pren Caled

Wedi sychu'n llawn dros ddwy flynedd

Barod i losgi



Cysylltwch â Richard neu Judy ar:

01437 563120

rhydwenfarm@btconnect.com

Cymanfa Cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd

Ar nos Sul y 18fed o Fedi, cynhaliwyd Cymanfa Ganu yng Nghapel Gellimanwydd, Rhydaman fel rhan o ddatthliadau'r Ŵyl Gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2023.

Trefnwyd y gymanfa gan Is-bwyllgor Cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin, ac aeth elw'r noson tuag at gronfa codi arian Eisteddfod yr Urdd.

Arweinyddes y noson oedd Mrs Meinir Richards, a Christopher Davies a band cyfoes fu'n cyfeilio. Yn ystod y gymanfa, canwyd detholiad o emynau traddodiadol a chyfoes o'r llon i'r lleddf, a oedd yn addas at ddant pawb.

Yn ystod y noson, cafwyd eitem gan Owain Rowlands o Landeilo a ganodd fersiwn arbennig o 'Ave Maria' o waith y cyfansoddwr Richard Vaughan o Rydaman.

Bu'r gefnogaeth i'r noson yn anhygoel. Roedd hi'n wych i weld y capel yn orlawn gyda chynrychiolaeth o bob cwr o'r sir yn rhan o'r gynulleidfa. Roedd y galeri yn llawn cantorion a'r llawr yn llawn o ddisgyblion ysgolion Uwchradd y sir yn mwynhau canu.

Daeth cwmni Rondo i recordio'r gymanfa er mwyn darlledu dwy raglen arbennig o 'Dechrau Canu Dechrau Canmol' ar gyfer S4C, a fydd i'w gweld ar y sgrin y flwyddyn nesaf.



Pethau Olyv

Ffasiynau, gemwaith ac ategolion merched

Mermaid Buildings
Heol y Pentre
San Clêr

Ffôn: 01994 230590

info@pethauolyv.co.uk





Coffi a Chlonc:

Mae'r sesiynau yma sydd wedi cael eu cynnal ers cychwyn y cyfnod clo yn parhau. Dyma gyfle i ddod ynghyd i sgwrsio a chymdeithasu dros baned bob bore dydd lau am 10.30yb ar Zoom. Mae'r weithgaredd yma yn addas ar gyfer dysgwyr neu siaradwyr rhugl. I dderbyn y linc cysylltwch gyda ymholiad@mgsg.cymru.

Paned a Sgwrs:

Yn ddiweddar mae'r Fenter wedi dod yn rhan o sesiynau Paned a Sgwrs yng Nghaffi'r Atom, pob dydd Mawrth o 10-11yb. Cyfle i sgwrsio a chymdeithasu dros baned. Croeso i siaradwyr newydd a siaradwyr rhugl. I gofrestru, cysylltwch gyda alma@mgsg.cymru.

Sesiynau stori:

Rydym yn ail-gychwyn sesiynau stori mewn pedair ardal sef Caerfyrddin ar ddydd Llun yng Nghanolfan Chwarae Sgiliau am 10:30am. Yn Maesyrugiau/Llanllwni ar ddydd Mawrth yn Neuadd Cymunedol Eglwys Llanllwni am 10:30am. Yn San Clêr ar ddydd Mercher yn Y Gât am 10:30am ac yng Nghastell Newydd Emlyn ar ddydd Mercher yn Llyfrgell Castell Newydd Emlyn am 10am. Ymunwch â ni mewn sesiwn stori ac ychydig o ganu pob pythefnos. Cysylltwch gyda gawwr@mgsg.cymru i gofrestru.

Clybiau Drama:

Mae'r Fenter a Theatr Genedlaethol Cymru yn cynnig dau glwb drama i blant yr ardal, Clwb Joio Drama ar gyfer blynyddoedd 1-3 ar nos Fercher o 5-5.45pm ac i flynyddoedd 4-6 o 6-7pm. Mae'r clybiau yn cael eu cynnal yn y Stiwdio, Theatr y Lyric, Caerfyrddin. Cyfle i blant dysgu sgiliau, magu hyder a mwynhau. I gofrestru, cysylltwch gyda alma@mgsg.cymru. Diolch i Theatrau Sir Gâr am y

croeso cynnes i'r theatr yn wythnosol.

Clwb Garddio:

Mae'r Fenter yn cydweithio gyda Cered – Menter Iaith Ceredigion i drefnu Clwb Garddio yn Yr Ardd, Pont Tyweli. Pob ail dydd Sadwrn y mis o 11yb-1yp. Cyfle i blannu a thyfu llysiau, ffrwythau a blodau. Croeso i bawb; oedolion a theuluoedd (angen oedolyn yn bresennol gyda phlant a phobl ifanc o dan 18 oed). I gofrestru: llinos.hallgarth@ceredigion.gov.uk neu ymholiad@mgsg.cymru

Paned a phapur:

Mae'r Fenter yn ail gychwyn ar sesiynau Paned a Phapur yn Amgueddfa Wlân, Drefach Felindre, pob pythefnos yn cychwyn ar yr 28ain o Fedi am 12pm. Cyfle i sgwrsio a chymdeithasu dros baned. Croeso i siaradwyr newydd a siaradwyr rhugl. I gofrestru, cysylltwch gyda luned@mgsg.cymru.

Clybiau Darllen:

Yn dychwelyd mae clybiau darllen y Fenter sy'n cwrdd unwaith y mis ar Zoom. Mae clwb darllen i oedolion yn cwrdd bob ail nos Fawrth y mis am 7yh a chlwb darllen i ddysgwyr yn cwrdd ar y trydydd nos Fawrth y mis am 7yh. Dyma gyfle i ddod ynghyd i gymdeithasu a thrafod nofelau cyfoes. Am fwy o wybodaeth neu i gofrestru cysylltwch gyda nia@mgsg.cymru / betsan@mgsg.cymru

NEWYDD Clybiau Cinio:

Yn dilyn llwyddiant mewn cais i gyllido prosiect mae'r Fenter yn trefnu cyfres o Glybiau Cinio yn Llanboidy a Cwmann. Mae'r clwb yn darparu pryd o fwyd 2 gwrs am ddim i bobl hŷn yr ardal. Mae'r clwb yn cwrdd yn Llanboidy ar: 8/11/22, 13/12/22 a 10/01/23 ac yng Nghmwnn ar: 9/10/22, 14/11/22 a 11/01/23. Mae'n angenrheidiol i chi gofrestru yn Llanboidy gyda Betsan: betsan@mgsg.cymru a Cwmann gyda Luned: luned@mgsg.cymru neu 01239 712934 i sicrhau eich lle.

NEWYDD Taith ysgolion – Shwmae Sumae:

I ddathlu Diwrnod Shwmae Sumae eleni, mae'r Fenter yn mynd ar daith ysgolion yn ardal Caerfyrddin a Dyffryn Taf, edrychwn ymlaen at

arwyddion
eaglesigns

Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion,
Argraffu a Lifrau Cerbydau...

01994 231749

post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk

UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

WYN HOWELLS

Dandre
Llanboidy

 Paentiwr ac
Addurnwr

Ffôn: 01994 448478

STEVE DANIELL

 **Monraker** 

Plymiwr
a gwaith cyffredinol
"Handyman"

 Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf

Ffôn: 07837 089648

ddychwelyd i'r ysgolion wedi'r haf.

***NEWYDD* Parti Calan Gaeaf:**

Mae'r Atom a'r Fenter yn cynnal Parti Calan Gaeaf yn Yr Atom ar y 31ain o Hydref rhwng 10am-12pm. Bydd y bore yn cynnwys sesiynau chwarae anniben, gemau, crefftau, amser stori a chystadleuaeth gwisg ffansi. £1 y plentyn dros 12 mis.

Cysylltwch â helo@yratom.cymru neu alma@mgsg.cymru i gofrestru.

***NEWYDD* Un Noson Ola Leuad:**

Mae Un Noson Ola Leuad gan Theatr Bara Caws yn dod i Gaerfyrddin ar yr 2il o Dachwedd yn Neuadd San Pedr am 7:30pm. Tocynnau am £8/£10 wrth alma@mgsg.cymru (tocynnau yn mynd yn gyflym felly archebwch yn syth).

Cynnuau goleuadau Nadolig:

Rydym yn edrych ymlaen at ddathliadau Cynnuau Goleuadau Nadolig Caerfyrddin gyda Chyngor Tref Caerfyrddin, nodwch y dyddiad yn eich dyddiaduron sef 19eg o Dachwedd rhwng 10am-5pm. Mwy o wybodaeth i ddilyn.

***NEWYDD* Noson Siopa Nadoligaidd:**

Ar nos Wener y 25ain o Dachwedd, bydd yr Atom a'r Fenter yn cynnal noson siopa Nadoligaidd yn Yr Atom rhwng 5pm a 8pm.

Os oes diddordeb gyda chi fynychu gyda stondin, cysylltwch gyda heledd@mgsg.cymru neu helo@yratom.cymru.

***NEWYDD* Noson Nadoligaidd:**

Mae'r Fenter ac Yr Atom yn cynnal noson Nadoligaidd sy'n cynnwys gweithdy torch gyda Wendy Blodau Blodwen, mins peis a digon o win cynnes ar y 30ain o Dachwedd am 7pm am £50 yn Yr Atom, Caerfyrddin. Rhaid cofrestru erbyn 23ain o Dachwedd gydag alma@mgsg.cymru.

Cyfyngau Cymdeithasol:

Gyda'r cyfyngiadau yn newid o hyd, mae gwaith y Fenter yn newid gydag amryw o ddigwyddiadau a

gweithgareddau yn cael eu cynnal ar-lein.

Am y diweddaraf, ewch i'n cyfryngau cymdeithasol:

Facebook - Menter Gorllewin Sir Gar

Trydar - @MenterGSG

Instagram - @MenterGSG

E-bost - ymholiad@mgsg.cymru neu am fwy o wybodaeth ar sut i gyrraedd y platfformau yma cysylltwch â ni ar y ffôn: 01239 712934.



Mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn cyflwyno | introducing...

CLWB CINIO LLANBOIDY LUNCH CLUB

8.11.22, 13.12.22, 10.1.23
11:45am

Neuadd Llanboidy Hall
Cinio i ddinasyddion hŷn
Lunch for senior citizens

PRYD 2 GWRS 2 COURSE MEAL **AM DDIM FREE**

I gofrestru | To register:
betsan@mgsg.cymru
01239 712934

Ymgyddiaeth Gyhoeddus
Mwyngau'r Gymraeg
Menter
Gorllewin Sir Gâr
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CARTREF ODDI CARTREF



Y GARREG LWYD
HEOL SALEM
SANCLER

FFONIWC
Y RHEOLWRAIG
01994 230855



OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelffre
SAER COED

Ffôn Symudol:
07919 524569



G&S Llewellyn a'i Mab



Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320



olew Trefigin oil

Y Gwasanaeth sy'n Gwrsogi

HEATING OIL
DIESEL
FARM DIESEL
LUBRICANTS

Warm to our Service
Cwmni annibynnol,
Teuluol, lleol, Cymraeg

01239 881050
www.trefigin.cymru
01239 881282

Cwmni Myrddin

Yn ei hunangofiant dywed John Gwilym Jones mai'r eiliad hapusaf iddo wrth gyfansoddi drama oedd yr eiliad yr ysgrifennai'r gair "LLEN". Daeth y gwaith i ben.

Ac eto, gall "dod â'r gwaith i ben" fod yn hynod boenus ac y mae meddwl am gau'r llen ar "Gwmni Myrddin" a holl ddramau a dramau cerdd y gorffennol yn anodd

"Cwmni Myrddin" oedd yr olaf yn yr olyniaeth pan berfformiwyd "Dau Hanner Brawd". Deuai'r aelodau'r Cwmni o bell ac agos a'u hymroddiad a'u ffyddlondeb yn rhyfeddol. Roedd cyfraniad pob aelod o'r Cwmni yn werthfawr a chyfraniad Eric Jones, y cyfansoddwr toreithiog, yn allweddol i lwyddiant y dramau cerdd.

Er y costau uchel wrth i'r Cwmni berfformio yn theatrau Lyric, Elli a'r Mwldan nifer o weithiau, rhyddhad a llawenydd oedd deall fod yna elw sylweddol ar y diwedd. Roedd hyn oherwydd i werthiant y tocynnau fod yn llawer uwch na'r disgwyl a chefnogaeth y cefnogwyr yn eithriadol o hael.

Y dasg yn awr oedd dewis y ffordd orau i ddefnyddio'r elw. Amhosib dod i benderfyniad drwy geisio barn pob aelod o'r Cwmni ac am hynny daith saith aelod o'r pwyllgor gwaith ynghyd ac wedi cryn drafod a theimlo'n hyderus y byddai'r aelodau yn ein cefnogi, penderfynwyd cyfrannu swm cyfartal i chwech achos teilwng sef:

1. Llyfrau Llafar Cymru
2. Ambiwlans Awyr Cymru
3. Adran Cancr y Fron, Ysbyty Llanelli
4. Adran Cardioleg Ysbyty Treforus
5. Hosbis Bryngwyn, Llanelli
6. Y Faner Newydd

Yn anorod, daeth diwedd ar gyfnod gwerthfawr yn hanes "Cwmni Myrddin" a diolchir am bob cymorth a chefnogaeth a gafwyd. Yn awr, does ond gobeithio fod mwy nag elw ariannol yn deillio o gyflwyno'r dramau cerdd ac na fydd y "Llen" yn disgyn ar ein hatgofion.

Nan Lewis



DEMENTIA:

Adnodd newydd ar gyfer Eglwysi



Mae dementia yn salwch cynyddol mewn cymdeithas. Prin fod yr un teulu heb brofiad ohono bellach. Yn ôl ystadegau'r Gymdeithas Alzheimer, mae dros 850,000 o bobl yng ngwledydd Prydain yn byw gyda dementia. Mae disgwyl i'r nifer yna gynyddu i filiwn o fewn tair blynedd, a dwy filiwn erbyn 2050.

Yn wyneb y cynnydd brawychus yma, mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, sy'n cynrychioli cynulleidfaoedd mewn 350 o gapeli ledled Cymru, wedi cyhoeddi Heulwen Dan Gymylau, sef ffeil swmpus i gynorthwyo ac annog eglwysi dementia-gyfeillgar (Llun: Emlyn Davies yn cyhoeddi'r adnodd). Mae'r ffeil yn adnodd newydd sy'n esbonio natur dementia, sut i fod yn 'ffrindiau dementia' yn y gymuned, sut i baratoi oedfaon ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia, a llu o awgrymiadau gwerthfawr eraill.


Bu gweithgor wrthi'n ddygn yn llunio'r ffeil, gyda chymorth ac awgrymiadau nifer o asiantaethau a sefydliadau sydd yn gweithio yn y maes arbennig yma. Mae'r adnoddau yn tywys pobl trwy ddulliau o hunanasesu'r man cychwyn ar y daith. Ceir gymorth 'Patrymau ar gyfer oedfaon,' a gwerth 'Grym Cerddoriaeth' i'r rhai sy'n byw gyda dementia. Hefyd, ceir cyfeiriadau a chysylltiadau mudiadau sy'n gweithredu yn y maes yn barod, a gwybodaeth ar sut i fod yn 'Ffrind Dementia' neu'n 'Hyrwyddwr Ffrindiau Dementia.'

Rhestrir adnoddau digidol a llyfrau print, ac mae'r cyfan wedi ei osod o fewn cyd-destun 'Seiliau Diwinyddol Eglwys Dementia-gyfeillgar.' Mae'r fersiwn digidol yn hwyluso defnydd o'r cynnwys i unigolion neu ar gyfer oedfa, a chynhwysir nifer ychwanegol o esiamplau o oedfaon addas, gyda sleidiau Pwynt Pŵer.

Mae'r adnodd cyfan ar gael ar wefan Undeb yr Annibynwyr, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ewch i: www.annibynwyr.org/cy/page/eglwysi-dementia-gyfeillgar

Mae heulwen dan gymylau – a gwên
Yn gudd yn y dagrau;
Yna afiaith hen hafau
Ddaw'n ei dro i'r co' – cyn cau.

(John Phillips, i'w wraig Bethan)

**Hydref**

Tymor y tarth a'r aeddfedrwydd,
Y machlud yn byrhau'r dydd
Sy'n llwythog o ffrwythau
Yn plygu brigau'r coed.
Gwres Haf bach Mihangel
Yn twyllo'r gwenyn.

Caeau gwair yn borfa gwyrdd
Ac ysguboriau'n gwahodd
Cynnyrch y tymhorau
Cyn yr hirlwm;
Gwenoliaid yn heidio mewn rhes
Cyn ymfudo.

Cwmp y dail fel carped coch
Sy'n gysur dan draed –
Fel prawf o freuder dyn
Wedi'r diosg llwyr.
Natur yn noswyllo
I wely'r gaeaf,
Cyn yr adfywiad. *N.E.*

Tribannau Mis Hydref

Mis Hydref ar ôl Medi
A ddaw mae'n siwr eleni,
Ac awel oerach yn y tir
Cyn gaeaf hir i'n llethu.

Fe fydd y dail yn crino,
A'r cyfan oll yn huno,
Y brigau'n noeth ar lawr y cwm,
A'r coed yn llwm wrth wywo.

Y lliwiau oll o'n cwmpas
Sy'n codi'n hysbryd llwydlas,
Amrywiaeth welir ar bob llaw
Er dyfod glaw sy'n ddiiflas.

Yr Hydref a glodforwn –
Am natur oll dioichwn;
Mewn moliant plygwn gerbron Duw,
Ein Crëwr gwiw addolwn.

Dwynwen Teifi

Login
Hendygywn
Sir Gaerfyrddin
SA34 0UX
Ffôn: 01437 563277
www.joneslogin.co.uk

**Nifer y dyddiau****Tachwedd**

Gwe 11	Gwesty Warner - Littlecote Swydd Berkshire	4
Sad 19	<i>Sioe Gerdd - My Fair Lady, CMC</i>	1
Sad 19	Bae Caerdydd	1
Gwe 25	Ffair Nadolig Gwesty'r Metropole, Llandrindod	3
Sad 26	Gwyl Olau Longleat	2

Rhagfyr

Sad 10	Nadolig Gerddi Kew	2
Sad 17	<i>Sioe Gerdd - Les Misérables, CMC</i>	1
Sad 17	Bae Caerdydd	1
Gwe 23	Nadolig yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod	5

Ionawr

Sad 21	<i>Sioe Gerdd - Bugsy Malone, CMC</i>	1
Sad 28	<i>Sioe Gerdd - Strictly Ballroom, CMC</i>	1

Chwefror

Gwe 24	Riviera Lloegr - Paignton	4
--------	----------------------------------	----------

Ebrill

Sad 24	<i>Sioe Gerdd - Jersey Boys, CMC</i>	4
Llun 26	Gwesty Warner - Nidd Hall, Swydd Efrog	4
Sad 29	<i>Sioe Gerdd - The Bodyguard, CMC</i>	1

Nifer y dyddiau**Mai**

Sad 6	<i>Sioe Gerdd - Charlie & The Chocolate Factory, CMC</i>	1
Llun 15	Hyfrydwch Sir Licoln	5
Llun 22	Petalau, Pabi a Phorslen	5
Sad 27	<i>Sioe Gerdd - The Commitments, CMC</i>	1

Mehefin

6 a 7	<i>Coldplay - Stadiwn Principality (Bws yn unig)</i>	1
20 a 21	<i>Harry Styles - Stadiwn Principality (Bws yn unig)</i>	1
Mer 21	Diwrnod y Merched - Royal Ascot	3
Mer 28	Yr Alban - Ucheldiroedd, Tren & Dolffiniaid	7

Gorffennaf

Sad 1	<i>Sioe Gerdd Take That - Greatest Days</i>	1
25 a 26	<i>Sioe Frehinol Cymry</i>	1

Awst

Llun 7	Eisteddfod Genedlaethol Cymru	6
Gwe 11	<i>Eisteddfod Genedlaethol Cymru</i>	1

Medi

Sad 2	Jersey	8
Llun 11	Windsor a Gerddi Wisley	5

Llyfryn newydd 2023 ar gael nawr!!**Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!**



**ARBENIGWR
LAND ROVER
ANNIBYNNOL**



MOT



♦CEIR ♦BEICIAU MODUR ♦FANIAU ♦4x4

Offer Diagnostig Diweddaraf





Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin
 Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.
 Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

**♦RHANNAU SPAR ♦GWASANAETH ♦TEIARS
♦BATRIS ♦WELDIO ♦TRACIO PEDAIR OLWYN
♦TYMHERU AER**

Ffôn: 01994 232960 ♦ Symudol: 07968 868313
 Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP



George's o San Clêr

Pysgod a Sglodion traddodiadol rhagorol



**Pysgod · Sglodion · Risols
Selsig · Cyw lân · Dioddydd**

**Ar agor Llun i Sadwrn
11.30 - 20.30**
**Croeso i chi archebu
ar y ffôn
01994 231482**
**Heol yr Orsaf,
San Clêr**





PENBLWYDD HAPUS





Penblwydd Hapus i Alaw Fflur Evans, Ysgubor Uchaf, Pedair Heol a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 7 oed ar Hydref 8fed. Cariad mawr wrth Dadi a Mami, Ffion a Cari, Datcu a Mamgu Cwmfelin a Mams a Dats, Tyn y Coed a'r teulu i gyd. xx



Penblwydd hapus i Emily Thomas, merch Dafydd a Kelly oedd yn 8 oed ar Fedi 21ain a Noah Llŷr Jackson-Wright yn 1 oed ar Fedi 23ain.







Penblwydd Hapus iawn i Osian Jones, mab Llŷr a Sioned Jones. (merch Michael a Delyth Roblin) sy'n dathlu ei benblwydd yn 2 oed. Wrth y teulu oll.





Pwmpen pwy?



CYSTADLEUAETH Cyfle i un darlennydd llwus ennill llyfr o gyfres Wenfro

Olwen



Owen



Rhoswen



Mae heno'n nos Glangaea!
A bwci ar bob camfa,
A Jac-y-lantern ar yr hewl -
Rhaid mynd neu ca' fy nala.

Fedrwch chi ddyfalu pwy gerfiodd
y bwmpen fuddugol?



1af

Bwgi-bo



Branwen



Glanwen



Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/11/22

Teleri Gwen Lloyd yw enillydd Cystadleuaeth Parti Barti.
Ateb: 4 potel blastig, 10 can bwyd a diod, 3 esgid a 5 pwl oedd yn y rhwyd.





Bysiau Cwm Taf

Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol



DYDDIAD	TEITHIAU 2022/23	PRIS	DI-
Gwe 4 - 7 Tachwedd	TAITH UCHELWYDD A GWIN yn DARTMOOR	£300	4 Diwrnod
Llun 14 - 18 Tachwedd	TWRCI A THINSEL YN DYFFRYN GWY	£395	5 Diwrnod
Gwe 18 - 20 Tachwedd	MARCHNAD NADOLIG YN CHATSWORTH HOUSE	£225	3 Diwrnod
Gwe 25 - 29 Tachwedd	CELYN AC UCHELWYDD YN LLANDUDNO	£430	5 Diwrnod
Gwe 25 - 27 Tachwedd	MARCHNADOEDD NADOLIG - MAENCEINION A CAER	£215	3 Diwrnod
Llun 28 Tach - 2 Rhag	BELGRAVE SANDS, TORQUAY A TINSEL	£355	5 Diwrnod
Gwe 9 - 12 Rhagfyr	TWRCI A THINSEL YN BABBACOMBE	£245	4 Diwrnod
Gwe 30 Rhag - 2 Ionawr	DATHLU Y FLWYDDYN NEWYDD YN WATERFORD IWERDDON	£425	4 Diwrnod
Gwe 13 - 16 Ion 2023	ADUNIAD BLYNYDDOL YN Y BELGRAVE SANDS TORQUAY	£230	4 Diwrnod
Gwe 20 - 23 Ion 2023	PENWYTHNOOS ARBENNIG YN GWESTY'R PALACE PAIGNTON	£230	4 Diwrnod
Chwefror 9fed 2023	Rygbi y Chwe Gwlad ALBAN v CYMRU yn CAEREDIN	£349	4 Diwrnod
Gwe 10 - 12 Mawrth 23	Clive a'i Ffrindiau yn diddanu yn y CELTIC, CAERNARFON	£220	3 Diwrnod
Llun 28 Chwef - 4 Maw	Amser Hamddenol yn STREET	£275	5 Diwrnod
Gwener 4 -7 Mawrth	DARTMOOR ac ARFORDIR DE DEVON	£275	4 Diwrnod
Sadwrn 12 -15 Mawrth	GOGONEDDAU ARFORDIR CERNYW - St AGNES	£270	4 Diwrnod
Sul 13 - 14 Mawrth	NOSON YN GWESTY WALDORF, LLUNDAIN	£185	2 Ddiwrnod
Gwener 18 -20 Mawrth	CLIVE a'I FFRINDIAU yn diddanu yn y CELTIC CAERNARFON	£215	3 Diwrnod
Gwener 25 -28 Mawrth	PENWYTHNOS CABARET YN TORQUAY	£250	4 Diwrnod
Llun 28 Maw - 1 Ebrill	Prydferthwch SOUTH DOWNS yn BOGNOR REGIS	£335	5 Diwrnod
Iau 31 Maw - 4 Ebrill	MÔRDAITH GWATWAROL LLANDUDNO	£425	5 Diwrnod
Iau 7 - 11 Ebrill	CAEAU BLODAU'R ISELDIROEDD	£495	5 Diwrnod
Gwener 8 - 11 Ebrill	PENWYTHNOS I Ymlacio yn DULYN	£345	4 Diwrnod
Gwener 22 - 25 Ebrill	PENWYTHNOS YN GWESTY BELGRAVE SANDS TORQUAY	£299	4 Diwrnod
Llun 25 -29 Ebrill	RHEILFFYRDD RHAMANTUS GOGLEDD CYMRU	£450	5 Diwrnod
Llun 2 - 6 Mai	Mordaith llong ar Gamlas LERPWL a MAENCEINION	£465	5 Diwrnod
Gwener 6 - 8 Mai	CRWYDRO TAFARNDAI WETHERSPOONS	£195	3 Ddiwrnod
Gwener 13 - 16 Mai	PENWYTHNOS Braf YN GWESTY PALACE PAIGNTON	£300	4 Diwrnod
Sadwrn 14 - 20 Mai	CRWYDRO O AMGYLCH YNYS HARDD JERSEY	£660	7 Diwrnod
Mawrth 17 - 19 Mai	MEN & MOTORS 1V	£265	3 Diwrnod
Sul 22 - 25 Mai	PUDDING CLUB (Noson blasu pwddinau) & COTSWOLDS	£345	4 Diwrnod
Iau 26 - 28 Mai	SIOE FLODAU CHELSEA	£299	3 Diwrnod
Llun 30 Mai - 2 Mehef	LLANDUDNO - Croeso Twymgalon Gwesty'r Tynedale	£370	4 Diwrnod
Sul 5 - 10 Mehefin	IWERDDON - KERRY	£600	6 Diwrnod
Llun 6 - 9 Mehefin	DARGANFOD GERDDI DORSET	£360	4 Diwrnod
Llun 13 - 17 Mehefin	Ales and Haunted Tales of LANCASHIRE	£435	5 Diwrnod
Mawrth 21-28 Mehefin	YNYS Hudolus ORKNEY a Chastell MEY CAITHNESS yr ALBAN	£900	8 Diwrnod
Sul 26 Mehef - 2 Gorff	Ymweliad a RHEILFFORDD "BLUEBELL" EASTBOURNE	£535	7 Diwrnod
Iau 7 - 9 Gorffennaf	GOODWOOD FESTIVAL OF SPEED	£320	3 Diwrnod
Iau 14 - 16 Gorff	The Royal International Air Tattoo	£290	3 Diwrnod

Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau
 Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni
 01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk

Ironman Cymru



Aubrey Young, Llandysilio



Gwyndaf Lewis, Caerfyrddin



Rhys Davies, Pwllttrap



Rhys Mathias



Carwyn Jones yng nghwmni ei deulu

Y bechgyn yma i gyd wedi cwblhau Ironman Cymru - Llongyfarchiadau mawr iddynt

Clwb Rygbi San Cler - parhad o dudalen 43



Jac Howells (captain) yn sgorio cais yn erbyn Neyland

Lluniau gan Chris Rees



Dan Griffiths ar fin sgorio cais yn erbyn Cwmgors

Clwb Rygbi Hendy Gwyn

Dynion

Medi:

10fed - gohiriwyd y gêm adre yn erbyn Tregwyr oherwydd marwolaeth y frenhines.

17eg - gêm gwpan adre yn erbyn Rhydaman. Colli 13-46, cais yr un i Gino Setaro a Lewis Gibbin, cic gosb i Geraint Jones.

24ain - I ffwrdd yn erbyn Penfro, ennill 20-33. Tri cais i Liam Price a dau gais i Ianto Davies. Llwyddodd Geraint Jones gyda pedwar trosiad.

Hydref 1af - gêm adref yn erbyn Llangennech, colli 14-57. Ceisiau i Jonny Thomas a Jack Richards. Dau drosiad gan Geraint Jones.

Gemau i ddod :-

Hydref:

8fed - I ffwrdd yn erbyn Yr Hendy

15fed - Gêm gwpan i ffwrdd yn erbyn Tondy

22ain - I ffwrdd yn erbyn Castell Newydd Emlyn

29ain - Gêm gwpan adref yn erbyn Castell Newydd Emlyn

Mae wedi bod yn ddechrau anodd i'r tymor gyda llawer o anafiadau. Mae 8 aelod o'r garfan allan ar hyn o bryd, gobeitho byddant nôl yn chwarae'n fuan.

Menywod

Medi 11eg - I ffwrdd yn erbyn Ynysddu, ennill 6-43. Sgoriwyd dau gais gan Marged Williams a Nat Walsh a cais yr un gan Danielle Lawrence, Mari Griffiths ac Emily Griffiths. Llwyddodd Emily hefyd gyda pedwar trosiad.

Medi 25ain: Gêm gwpan yn erbyn Pencoed ond nid oedd tîm ganddynt, felly, gwnaethom hawlio buddugoliaeth o 20-0.

Hydref 2il: Gêm gyfeillgar yn erbyn Hwlfordd, ennill 72-7. Sgoriwyd dau gais gan Ceulyn Davies, Marged Williams a Peark Griffiths, a cais yr un i Amy Morgan, Cath Morley, Mari Griffiths, Hannah Howell a Macey Bowen. Llwyddodd Macey Bowen gyda chwech trosiad.

Gemau i ddod:-

Hydref:

9fed - adre yn erbyn Blaendulais

16eg - i ffwrdd yn erbyn Llanbed

23ain a 30ain - dim gêm

Ieuenctid

Medi 10fed: I ffwrdd yn erbyn Dinbych y Pysgod, ennill 19-38. Sgoriwyd dau gais gan Jake Williams a cais yr un gan Harrison Lloyd, Lennon Reynolds,

Lewis Jones a Jack Worthing. Llwyddodd Lennon

Reynolds gyda tair trosiad a Tyler Reynolds gyda un.

Medi 17eg: I ffwrdd yn erbyn Penfro, ennill 23-31.

Sgoriwyd cais yr un gan Toby Williams, Lewis Jones, Ieuan Hull, Luc Owen a Jack Worthing. Llwyddodd Tyler Reynolds gyda dau drosiad a Lennon Reynolds gyda un.

Medi 24ain: Adre yn erbyn Aberystwyth, colli 12-38.

Sgoriwyd cais yr un gan Jack Worthing ac Ethan a

Llwyddodd Lennon Reynolds gydag un trosiad

Hydref 1af - dim gêm

Gemau i ddod :-

Hydref:

8fed - adref yn erbyn Llangwm

15fed - dim gêm

22ain - i ffwrdd yn erbyn Arberth

29ain - gêm gwpan

Dal i ddisgwyl i'r merched ddechrau chwarae

Plant

Dan 8

Wedi ennill 4 gêm a colli 6

Dan 9

Wedi ennill 2 gêm a colli 1

Dan 10

Wedi ennill 3 gêm.

Dan 13

Wedi ennill 1 gêm a colli 2

Diolch o galon i'r holl wirfoddolwyr sy'n cynorthwyo'r clwb mewn unrhyw fodd, gwerthfawrogi eich cyfraniad yn fawr iawn. Diolchwn hefyd am gefnogaeth y cefnogwyr a'n noddwyr i gyd.

Suzanne Davies

Emrys ac Ann Murrow

Motel Nantyffin Llandissilio



Bwyty • Neuadd Wleda
ar gyfer priodasau,
cynadleddau, dawnsfeydd,
cyngherddau



Croeso cwrtais bob amser

Ffôn: 01437 563423

Ffacs: 01437 563329

Celia Vlismas
OPTEGYDD

**Croeso i
gleifion GIG!**

Profion golwg GIG ar gael
Yn gyflym ac yn hawdd i unrhyw un
sy'n gymwys i gael gofal llygaid GIG

Castell Newydd Emlyn **01239 711888**
Crymych **01239 831555**
Arberth **01834 861373**
www.celiavlismasopticians.co.uk



Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf

Robert W. R. Morgan



CYMERADWYEDIG GAN
NICEIC

17 Trevaughan Lodge
Hendygywyn ar Daf
SA34 0QF

Ffôn: 01994 240946 - Symudol 07966 019281
e-bost: robbrmd28@gmail.com

Clwb Pel-droed San Cler

Nôl yng nghanol y ganrif diwethaf roedd clwb pel-droed yn San Cler a adnabyddwyd fel Tîm Llanfihangel, (ar ôl y plwyf) ond yn 1965 sefydlwyd Clwb Pel-droed San Cler sydd, er yn Sir Gaerfyrddin, wedi chwarae pel-droed yng nghyngreiriau Sir Benfro. Cae "Welfare" San Cler oedd eu cartref ac mae'n nhw'n dal i chwarae ar y cae hwn dros hanner canrif yn ddiweddarach.

Dros y blynyddoedd mae'r Clwb wedi cael cryn lwyddiant gyda sawl un yn cofio cystadlaethau megis y Mond Cup ym mlynnyddoedd cynnar y Clwb. Erbyn hyn mae sawl tîm yn chwarae dros y Clwb, tîmau cyntaf ac ail, tîmau iau o dan 6 oed i fyny at dan 16 oed, hefyd tîm merched iau sydd ag ystod ehangach o oedran.

Nick Squire yw rheolwr y tîm cyntaf a Danny Peters yn gapten. Andrew "Seabass" Edwards yw rheolwr yr ail dîm gyda Mark Pickersgill yn gapten.

Cyn yr haf enillodd y tîm cyntaf ddychafiad i Gyngair Cyntaf Sir Benfro a chael tipyn o lwyddiant yng nghystadleuaeth Cwpan Gorllewin Cymru gan golli 3 - 1 i Seven Sisters / Blaendulais yn y rownd go gynderfynol. Enillodd Seven Sisters / Blaendulais y Cwpan.

Brwydrodd yr ail dîm, sy'n cynnwys nifer o chwaraewyr ieuainc, gan ennill nifer o

gêmau ardderchog. Eu gobaith hwy yw adeiladu ar hyn yng Nghyngair 5.

Gobeithion y tîm am dymor 2022/23 yw chwarae pel-droed deniadol mewn cyngair gystadleuol gan anelu am orffen yn y 5 uchaf. Gobeithiant, hefyd, am gyfres lwyddiannus o gêmau yng nghystadleuaeth y cwpan.



Llun o'r gorffennol – aelodau Clwb Pel-droed San Cler yn paratoi'r cae nôl yn 1967.

Yn y llun : David McCabe, Desmond Evans, Glyn John, Eric Raymond, Les Evans, Phillip Lewis, Raymond Williams.

Clwb Rygbi San Cler

Dyma ganlyniadau'r gemau diweddar:-

Medi

17eg: Cwmgors 5 - San Cler 55 (gem gwpan)

24ain: Neyland 19 - San Cler 38

Hydref

1af: San Cler 40 Doc Penfro 7

8fed: Tregaron 0 San Cler 69

Gemau i ddod:

Hydref

15fed: Tregaron adre (gem gwpan)

22ain: Tŷ Ddewi adre

29ain: Llandeilo i ffwrdd (gem gwpan)

Tachwedd 12fed - Talacharn i ffwrdd

Yn dilyn cychwyn gwyh i'r tymor, mae'r tîm cyntaf yn eistedd ar frig Cyngair 3A y Gorllewin ar ol ennill 4 gem o'r bron. Rydym yn sylweddoli bod gennym gemau caled o'n blaenau, a nifer o heriau yn erbyn gwrthwynebwyr heriol. Y gamp nawr yw i gadw'r momentwm i fynd dros yr wythnosau nesaf wrth i ni baratoi ar gyfer ein gem ddarbi fawr yn erbyn Talacha-

rn, ein cymdogion mynwesol, ar Tachwedd 12fed.

Mae'r garfan wedi cylchdroi'n llwyddiannus ers dechrau'r tymor, mae'n wych gweld 11 o gyn chwaraewyr y tîm ieuencid yn cael eu cynnwys yn rheolaidd o fewn y garfan. Mae hyn yn adlewyrchu'r pwysigrwydd o ddatblygu tîmau rygbi mini, iau a ieuencid o fewn y clwb. Rydym bellach yn medi beth cafodd ei hau gennym dros gyfnod hir o dymhorau.

Gwnaeth y tîm datblygu chwarae yn erbyn tîm cryf Felinfoel ar Hydref 8fed gyda gemau yn erbyn Rhydaman a Porth Tywyn i'w chwarae dros yr wythnosau nesaf. Rydym yn estyn croeso cynnes i ddarpar chwaraewyr ymuno gyda ni. Cysylltwch gyda Rob Phillips ar 07837 875145 am fwy o fanylion.

Mae tymor y tîmau mini a iau yn mynd yn hwylus iawn ac mae wastod croeso i bawb i Barc Griffith Jones. Da iawn i'r holl chwaraewyr sy'n cynrychioli'r clwb ac hefyd i'r rhai sy'n chwarae i dimau dan 15 Ysgolion Caerfyrddin a'r Cylch ac i dim dan 16 Sgarlets y Gorllewin.

Lluniau ar dudalen 41

Gwynndaf Williams

CHWARAEON

Clwb Bowlio Mat Byr Hendydwyn

Cyn dechrau'r tymor newydd daeth yr aelodau ynghyd yng Nghlwb Rygbi Hendydwyn i ddathlu'r tymor blaenorol ac i gyflwyno tlysau i enillwyr y cystadlaethau. Croesawyd pawb i'r noson gan y cadeirydd, Les Evans. Croesawodd yn arbennig ein aelod oes Mr Ron Jenkins a braf iawn oedd i gael ei gwmni. Mwynhawodd pawb y bwyd blasus oedd wedi ei baratoi gan Mrs Christine James. Wedi i bawb cael llond bol o fwyd gofynnodd y cadeirydd i Ron i gyflwyno'r tlysau.

Senglau: Mike Williams; Parau: Glyn James, Mike Taylor; Triplau: Marjorie Cripps, Shashi Patel, Glyn James; Pedwarau: David Scottow, Huw Davies, Richard Harris, Glyn James.



Aelodau'r Clwb gyda'r tlysau

Mae'r tymor newydd wedi dechrau gyda'r tîm yn chwarae yn ail adran cynghair Sir Gaerfyrddin.

Trefor Evans

Clwb Pel-droed Llanboidy

Tymor 2022-2023

Cafwyd dechreuad digon siomedig i'r Clwb, ond mae canlyniad diweddaraf y Clwb wedi gwella ac rydym yn edrych ymlaen tuag at y misoedd nesaf.

Tîm 1af

Mae'r tîm cyntaf wedi chwarae 4 gêm dros y mis diwethaf, ennill 3 gan sgorio 15 a cholli 1. Ennill 3-1 yn erbyn Sêr Dewi, o Landdewi Brefi gyda goliau yn dod gan Nick Jones, Caleb Young a Gethin Scourfield, cyn mynd ymlaen i guro Talybont yng nghwpan J Emrys Morgan o 5-0. Goliau Llanboidy yn dod gan Gethin Scourfield, Steff Williams, Owen Jenner a 2 gol gan Nick Jones.



Rhodri Lewis yn erbyn Sêr Dewi

Gêm gwpan Dai Dynamo cafwyd yn erbyn Prifysgol Aberystwyth, gyda'r Clwb yn ennill o 7-0. Goliau yn dod gan Adam Moore, Jac Griffiths, Ben Harvey, Rhodri Lewis a Frazer Wyatt yn sgorio 3. Yn anffodus colliwyd ein gêm yn erbyn Bargod Rangers, o Ddrefach Felindre o 2-0.



Jac Griffiths yn erbyn Sêr Dewi

2ail dîm

Mae'r 2ail dîm wedi chwarae 3 gêm hyd yn hyn eleni, gyda gemau yn erbyn 2il dim Llandysul, Bargod Rangers a Maesglas. Yn anffodus colli oedd yr hanes yn erbyn tîm cryf Llandysul o 8-1 gyda'r unig gôl yn dod gan Ifan Jones. Er hyn, cafwyd perfformiad da iawn yn erbyn Bargod Rangers gan ennill 6-1 gyda goliau gan Dion Morgan, Will Abbot a 4 gan Ifan Jones. Ennill 3-0 cafwyd yn erbyn Maesglas hefyd gyda Dion Morgan, Will Abbot a'r capten Chris Bowen yn sgorio'r goliau.

Rydym o hyd yn edrych am chwaraewyr newydd i'r Clwb - mae'r ymarferion yn cael eu cynnal ar hyn o bryd yng Nghae Dandre, Llanboidy pob nos Fawrth am 18.00yh. Cofiwch hefyd ein bod yn chwilio am noddwyr i'r Clwb, ac os oes diddordeb gyda chi neu yn adnabod rhywun sydd â diddordeb - cysylltwch gydag Eirlys Williams ar pauleirlys@btinternet.com.

Rhodri Lewis



Dathlu un o'r goliau yn erbyn Sêr Dewi